



GWEITHIO I WIREDU DYFODOL IACHACH I GYMRU





CYNNWYS

Rhagair – Jan Williams	4
Rhagair – Tracey Cooper	6
Ein blwyddyn mewn rhifau	10
Cyflwyniad	12
Datblygu'r cynllun a adolygwyd ganol y flwyddyn	13
Ymateb i COVID-19 o safbwynt diogelu iechyd	16
Canlyniadau iechyd y boblogaeth	22
Parhau ac ailgychwyn gwasanaethau hanfodol	26
Dysgu sefydliadol, gwybodaeth a'n stori COVID-19	34
Adferiad sefydliadol	40
Ein pobl	42
Cyflawni ein blaenoriaethau	46
Gweithio gyda'n partneriaid	52
Casgliad ac edrych i'r dyfodol	54

Cafodd rhai o'r lluniau yn y ddogfen hon eu tynnu cyn y pandemig COVID-19 ac felly efallai na fyddant yn adlewyrchu'r cyfyngiadau bryd hynny.

RHAGAIR JAN WILLIAMS

Yn fy rhagair i'n hadroddiad blynyddol yn 2019-2020, fe wnes i sôn pa mor falch yr oeddwn i o'r ffordd yr oedd ein sefydliad wedi cymryd camau yn gynnar iawn i ymateb i COVID-19, pandemig nas gwelwyd ei fath ers canrif.

Fe wnes i fynegi fy niolch i'n harbenigwyr ym maes diogelu iechyd a'r gwasanaethau microbioleg am ymateb mor gyflym, ac am barodrwydd staff ar draws y sefydliad i ymgymryd â rolau newydd a mabwysiadu ffyrdd newydd o weithio. Dywedais fy mod yn hyderus, beth bynnag fyddai hynt y pandemig a'i oblygiadau, y byddwn, yn adroddiad 2020-2021, yn mynegi fy malchder a'm hanrhydedd o fod yn gadeirydd ar y sefydliad ardderchog hwn a'i staff eithriadol o dalentog sydd mor ymroddedig i ddiogelu iechyd pobl Cymru.

Mae COVID-19 wedi achosi loes calon wrth i filiynau o fywydau gael eu colli ar draws y byd, gan gynnwys yng Nghymru, ac mae'r effaith arnom ni oll wedi bod yn enbyd. Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi gofyn i bawb sy'n gweithio i lechyd Cyhoeddus Cymru weithio'n galed iawn, ac mae'r ymateb wedi bod yn wirioneddol ragorol. Mae pobl wedi gweithio'n anhunanol ac yn ddiflino i roi arweiniad, ac rydym wedi ymsefydlu fel sefydliad iechyd cenedlaethol Cymru. Ymhlith ein llwyddiannau mae creu cynlluniau a chanllawiau, rhoi cyngor arbenigol ar glefydau, cadw gwyliadwriaeth a dadansoddi data, sefydlu llinellau cymorth angenrheidiol i'r cyhoedd ac i weithwyr proffesiynol, a diweddaru ein gwefan yn rheolaidd i gynnwys gwybodaeth berthnasol. Rydym hefyd wedi helpu Cymru i fod ar flaen y gad o ran datblygu system sganio'r gorwel ar lefel ryngwladol, lle rydym yn ymchwilio, yn gwerthuso ac yn dadansoddi tystiolaeth ryngwladol i helpu gyda llunio polisïau a chefnogi ymateb parhaus Cymru i'r pandemig COVID-19. Mae hyn wedi cyfrannu'n sylweddol at ymchwil i frechlynnau ac wedi helpu wrth gyflwyno rhaglen frechu Cymru yn erbyn COVID-19.

Ar hyd y daith, rydym wedi dod yn flaenllaw ar lefel fyd-eang ym maes dilyniant genomau, rydym wedi dadansoddi data gwyddonol yn fwy wrth ddefnyddio a chyflwyno gwybodaeth, ac rydym wedi arwain newid, arloesedd a gwelliant ar gyflymder nas gwelwyd ei debyg. Fe wnaethom agor labordai o fewn wythnosau yn hytrach na misoedd ac, o fewn chwech i wyth wythnos, fe wnaethom drawsnewid yr amser ar gyfer dychwelyd canlyniadau profion mewn labordai ar draws y wlad.

Mae'r Is-adran Sgrinio wedi parhau i gynnig tair rhaglen sgrinio drwy gydol y flwyddyn, sy'n llwyddiant arbennig iawn.

Mae'r ffaith ein bod wedi sicrhau buddsoddiad pellach i ehangu ein gwasanaeth profion COVID-19 a'n gwasanaeth diogelu iechyd hefyd yn tystio i'r gwerth a roddir ar ein rôl arwain.

Drwy gydol y flwyddyn, rydym wedi cynnal trefniadau llywodraethu da (sef y trefniadau o ran goruchwyllo'r hyn a wnawn) ac rydym wedi clywed sylwadau cadarnhaol gan ein harchwilwyr allanol (corff annibynnol sy'n monitro ein gwariant a'n perfformiad yn ystod y flwyddyn), a hynny ar ddiwedd blwyddyn heriol iawn, ac mae hyn yn deyrnged briodol i arweinyddiaeth ysbrydoledig Huw George a'i dîm cyllid rhagorol.



Rwy'n ddiolchgar i'm cydweithwyr ar y Bwrdd sydd bob amser wedi bod yn barod i roi mwy a mwy o'u hamser drwy gydol y flwyddyn wrth iddynt gwrdd yn fwy rheolaidd i ymateb i COVID-19. Buont yn cydweithio drwyddi draw, gan sicrhau cydbwysedd effeithiol rhwng monitro a darparu cymorth yn ystod cyfnod heriol iawn.

Mae angen i mi ddiolch yn arbennig i gadeiryddion, aelodau, arweinwyr gweithredol a phawb a gefnogodd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol a'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelu a Gwella.

Mae'r ddau bwyllgor wedi cwrdd yn amlach, ac maent wedi cyflawni rôl sylweddol ar ran y Bwrdd cyfan. Mae Kate Eden, is-gadeirydd y Bwrdd a chadeirydd y Pwyllgor Ansawdd, Diogelu a Gwella, a Dyfed Edwards, cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol, ill dau wedi bod wrth fy ochr drwy gydol y flwyddyn, ac maent wedi rhoi sawl cyngor doeth i mi – diolch yn fawr i'r ddau ohonynt.

Mae cydweithwyr gweithredol unwaith yn rhagor wedi dangos eu gallu yn eu rolau arweiniol ac yn eu cyfrifoldebau, ac mae Tracey Cooper, ein Prif Weithredwr, wedi arwain y tîm a'r sefydliad gyda'r egni, yr angerdd a'r ymroddiad sydd mor nodweddiadol ohoni. Mewn argyfwng, mae arweinyddiaeth effeithiol yn bwysicach nag erioed, ac nid oes argyfwng mwy difrifol na'r hyn sy'n deillio o bandemig byd-eang. Mae Tracey wedi dangos cryfder, cadernid ac ymdeimlad o bwrpas drwy gydol y flwyddyn, ac mae Cymru yn parhau i fod yn lwcus o'i chael yn un o'i phrif weithwyr cyhoeddus.

Nid yw COVID-19 wedi dod i ben, ac rydym yn parhau i ymateb iddo wrth i ni ailgychwyn gwasanaethau a dechrau ar yr hyn a fydd yn adferiad 'newydd', gan fanteisio ar yr holl gamau arloesol a gafodd eu cymryd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Mae'n ffrainc ac yn anrhydedd cael fy mhenodi am ail dymor yn gadeirydd Iechyd Cyhoeddus Cymru, ac edrychaf ymlaen at wneud sylwadau y flwyddyn nesaf ar ein datblygiad pellach fel sefydliad iechyd cyhoeddus cenedlaethol Cymru, a'n rôl flaenllaw wrth ymateb i'r niwed ehangach i gymdeithas yn sgil COVID-19.

Jan Williams OBE
Cadeirydd
Iechyd Cyhoeddus Cymru

RHAGAIR TRACEY COOPER

Mae'n bleser gennyf gyflwyno ein hadroddiad blynyddol ar gyfer 2020-2021. Fel sefydliad iechyd cyhoeddus cenedlaethol Cymru, ein gweledigaeth yw 'Gweithio i wireddu dyfodol iachach i Gymru'.

Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn ddigynsail yng nghyd-destun y pandemig byd-eang, ac rwy'n eithriadol o falch o'r gwaith arbennig y mae ein staff wedi ei wneud ar draws y sefydliad i ddiogelu pobl Cymru mewn cyfnod mor heriol.

Yn yr adroddiad blynyddol hwn, rydym yn trafod y newidiadau a'r effaith y mae'r pandemig wedi ei chael ar ein sefydliad a'n gwaith. Rydym ni, y GIG yng Nghymru a'n cydweithwyr mewn awdurdodau lleol, oll wedi wynebu pwysau cynyddol digynsail wrth gynllunio a darparu gwasanaethau i fodloni gofynion y rhai sydd wedi cael eu heffeithio gan y pandemig a bod ar flaen y gad wrth ddiogelu a chefnogi'r boblogaeth yn y ffordd orau bosibl.

Mae natur ein hymateb i COVID-19 wedi datblygu gryn dipyn yn ystod y cyfnod hwn, gan gyd-daro a'r adeg pan wnaeth y DU adael yr Undeb Ewropeaidd.

Ein rôl ni wrth ymateb i'r pandemig yw cynnig arweiniad a chynghor arbenigol ar iechyd y cyhoedd. Ers diwedd mis Chwefror 2020, ein blaenoriaeth bennaf fu defnyddio'n holl adnoddau yn effeithiol. Rydym hefyd wedi cynnig dadansoddiad a chynghor arbenigol ar y feirws i helpu wrth ymateb i glystyrau o achosion ar lefel leol. Bu'n rhaid i ni addasu, gan symud ein pobl i rolau eraill o fewn y sefydliad er mwyn ymateb ar raddfa ac yn gyflym sydd wedi golyguhyfforddiant newydd, profiadau newydd a heriau newydd i nifer o'n staff, sydd wedi gweithio'n gwbl broffesiynol ac ymroddgar drwy'r flwyddyn.

Mae ein hymateb eithriadol i COVID-19 hefyd wedi golygu y bu'n rhaid i ni asesu sut yr ydym yn cyflawni'r cynlluniau yr ydym wedi cytuno arnynt. Mae hyn wedi ein herio i ystyried nid yn unig y camau sydd angen i ni eu cymryd ar unwaith i ymateb i'r pandemig, ond hefyd y goblygiadau uniongyrchol ac anuniongyrchol i iechyd y cyhoedd yng Nghymru yn y tymor hir. O ganlyniad, rydym wedi datblygu Cynllun Gweithredol diwygiedig sy'n nodi'r meysydd blaenoriaeth a'r camau penodol y byddwn yn eu cymryd yn ystod y flwyddyn nesaf.

Mae ein staff wedi cyflawni sawl peth rhagorol, ac maent wedi ymgymryd ag ystod eang o weithgareddau drwy gydol y flwyddyn, a dim ond megis cyffwrdd yr wyneb y mae'r enghreifftiau a ganlyn. Mae'r cyflawniadau rhain yn cynnwys sefydlu Canolfan Gyswllt Genedlaethol a Chanolfan Diogelu Iechyd Genedlaethol i roi cyngor arbenigol, cyflym ar ddiogelu iechyd ar gyfer materion sy'n codi drwy dimau Profi Orlhain Diogelu rhanbarthol, ynghyd â llinell gymorth dros y ffôn i ateb ymholiadau proffesiynol yng Nghymru. Fe wnaethom hefyd ddatblygu'r Cynllun Ymateb Er Mwyn Diogelu Iechyd y Cyhoedd, a oedd yn sail i strategaeth Profi Orlhain Diogelu Llywodraeth Cymru. At hynny, fe wnaeth ein Canolfan Wylidwriaeth ar gyfer Clefydau Trosglwyddadwy a'r staff a gafodd eu symud yno o rannau eraill o'r sefydliad weithio'n gyflym i sefydlu system oruchwylio a gwybodaeth ar y clefyd er mwyn cefnogi'r ymdrechion i ddelio â'r pandemig, ac mae maint y dasg hon yn llawer mwy nag unrhyw beth y maen nhw wedi'i wneud o'r blaen.



Mae'r Uned Genomau Pathogen wedi bod yn cydweithio â phartneriaid allweddol i ddilyniannu pob sampl coronafeirws sydd ar gael gan gleifion yng Nghymru, a dadansoddi'r samplau hynny. Rydym wedi dod yn flaenllaw yn fyd-eang ym maes genomau COVID-19, wrth i ni ddadansoddi a dilyniannu mwy o enomau COVID-19 nag unrhyw wlad arall yn y byd heblaw'r Unol Daleithiau a Lloegr.

Roedd y Cynllun Ymateb Er Mwyn Diogelu Iechyd y Cyhoedd yn cydnabod y gall mesurau i gyfyngu a rheoli lledaeniad COVID-19, a'r salwch a achosir gan y feirws, gael effeithiau anfwriadol sylweddol a allai fod yn niweidiol i iechyd a llesiant pobl yn y tymor byr a'r tymor hir. Felly, roedd yn hollbwysig ein bod yn deall yr effeithiau niweidiol posibl hyn cyn gynted â phosibl, a'n bod yn monitro datblygiad hyn, gan edrych ar dystiolaeth berthnasol a datrysiadau i Gymru, a helpu i wneud polisiau a phenderfyniadau sy'n rheoli'r niwed neu'n achosi cyn lleied â phosibl o niwed lle bo modd.

Mae ein Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd wedi defnyddio ein cysylltiadau rhyngwladol a'n partneriaethau cryf i sefydlu system sy'n sganio'r gorwel ar lefel rhyngwladol mewn perthynas â materion sy'n ymwneud â COVID-19, gan ddarparu crynodebau cyfredol o bolisiau, gwybodaeth a chipolwg ar ddatblygiadau eraill ar draws y byd.

Mae'r Is-adran Ymchwil a Gwerthuso wedi gweithio'n gyflym a hyblyg iawn dros y flwyddyn ddiwethaf, ac mae hyn wedi arwain at gyfleoedd sylweddol megis ein rôl arweiniol ym maes ymchwil i frechlynnau, ac yn ei dro arweiniodd hyn at sefydlu astudiaethau brechlyn yng Nghymru, a hynny'n amserol.

Fe wnaethom hefyd lansio tîm Ymchwil a Gwerthuso fel rhan o'n hymateb, ac mae'r tîm hwnnw wedi bod yn bwynt cyswllt i gysylltu cyfleoedd ymchwil a'u blaenoriaethu ar draws y sefydliad.

Wrth ymateb i'r pandemig yn y tymor hir, mae angen sicrhau bod brechlyn diogel ac effeithiol ar gael i bwy bynnag sydd ei angen. Mae tîm Clefydau y Gellir eu Hatal drwy Frechlyn wedi rhoi cryn dipyn o gyngor arbenigol, ynghyd â chanllawiau a chymorth i Lywodraeth Cymru a'n partneriaid, ac rydym wedi cyfrannu at y gwaith ymchwil i frechlynnau COVID-19.

Ym mis Awst 2020, cymeradwyodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol achos busnes gan ein galluogi i gynyddu nifer y staff a buddsoddi mewn cyfarpar er mwyn i ni allu bodloni'r galw cynyddol ar labordai yn sgil y pandemig. Arweiniodd hyn at brosesu profion yn gyflym a chynnal mwy o brofion ar gyfer COVID-19, ac mae hyn wedi ein galluogi i ehangu ein gwasanaeth i gynnwys profion cyflym mewn ysbytai a chynnig cymorth ar gyfer brigiadau o achosion.

Cymeradwyodd y Gweinidog hefyd achos busnes ym mis Chwefror 2021 i ehangu ein prif wasanaeth diogelu iechyd er mwyn ychwanegu mwy o sgiliau i'n hymateb nawr ac yn y dyfodol.

Yn ystod y pandemig, rydym wedi atal ac ailgychwyn rhai o'n rhaglenni a'n gwasanaethau gan ddefnyddio ffyrdd newydd o weithio. Daeth y rhan fwyaf o'n rhaglenni sgrinio i stop dros dro ar 19 Mawrth 2020, heblaw am ein Rhaglenni Sgrinio Clyw Babanod a Sgrinio Smotyn Gwaed a'n Rhaglen Sgrinio Cynenedigol. Roedd ein staff yn rhagorol wrth sicrhau bod y gwasanaethau hyn yn parhau drwy gydol y pandemig. Fe wnaethom ailgychwyn gweddill ein rhaglenni bob yn dipyn o ddiwedd Mehefin 2020 ymlaen, ac maent wedi parhau ers hynny.

Mae labordy'r Is-adran Sgrinio ym Mharc Magden, Llantrisant wedi cadw ei achrediad UKAS i safon ISO 15189:2012, ac mae'r tîm wedi parhau i reoli a darparu gwasanaeth labordy o safon drwy gydol y pandemig. Mae cynnig y rhaglenni sgrinio drwy gydol ail don y pandemig wedi bod yn heriol, ond mae pob rhaglen wedi llwyddo i barhau diolch i ymroddiad ein staff a'r cyhoedd. Rydym hefyd wedi parhau i gynnig gwasanaethau brechu ac imiwneiddio hanfodol yn ystod y pandemig.

Ers i Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020 ddod i rym ar 7 Ebrill 2020, rydym wedi bod wrthi'n sicrhau bod ein hadeiladau'n bodloni'r rheoliadau a bod ein staff a'r rhai sy'n defnyddio ein gwasanaethau yn ddiogel. Oherwydd natur ein gwaith mewn gwasanaethau sgrinio a microbiolog, rydym wedi gwneud trefniadau ychwanegol i sicrhau bod staff a'r cyhoedd yn ddiogel a bod y gwasanaethau hynny'n gallu parhau.

Heb angerdd ac ymroddiad ein staff anhygoel a'n Bwrdd, ac oni bai i ni symud pawb a phopeth i ymateb i'r pandemig, ni fyddem wedi llwyddo i gyflawni popeth a wnaethom eleni. Mae ein Cadeirydd a'n cyfarwyddwyr anweithredol wedi bod yn ardderchog o ran darparu cymorth a doethineb wrth i'r flwyddyn fynd rhagddi, ac mae ein tîm gweithredol, ein cyfarwyddwyr strategol a'n cyfarwyddwyr digwyddiadau wedi bod yn ardderchog o ran arwain y sefydliad ac arwain Cymru drwy'r flwyddyn ddiwethaf – diolch i chi i gyd.

Yn olaf, mae ein pobl yn Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi gwneud pob ymdrech posibl i gadw pobl Cymru yn ddiogel, a byddaf yn fythol ddiolchgar am hynny. Mae ein staff ar draws y sefydliad cyfan wedi bod, ac yn parhau i fod, yn wirioneddol ragorol yn eu hangerdd, eu hymroddiad a'u proffesiynoldeb, ac mae Cymru yn lwcus iawn o'u cael yn y cyfnod hollbwysig hwn.

Dr Tracey Cooper
Prif Weithredwr
Iechyd Cyhoeddus Cymru

Sawl gwaith yn ystod y pandemig, bu'n rhaid i ni ofyn i'n pobl wneud pethau newydd ac ychwanegu at eu set sgiliau'n gyflym er mwyn gwneud gweithgareddau nad oeddent yn eu gwneud yn flaenorol, gan mai ni oedd yr unig gorff cenedlaethol a allai gamu i'r meysydd hyn i gefnogi pobl Cymru a'n partneriaid. Mae hyn yn enghraifft bellach o arweinyddiaeth ardderchog, ymroddiad ac ymrwymiad ein staff wrth wneud pob ymdrech i ddiogelu pobl Cymru.



EIN BLWYDDYN MEWN RHIFAU



Dros
2,100

o staff yn diogelu'r
cyhoedd yn ystod
pandemig COVID-19

Mae tua
1 filiwn

o samplau COVID-19 ac 1
filiwn o samplau nad ydynt
yn ymwneud â COVID-19
wedi cael eu prosesu
mewn labordai microbiolog

20

o sesiynau brechu
COVID-19 mewnol
wedi'u cynnal ar
draws tri lleoliad



42 diwrnod

- hysbysebwyd a gwnaed
rhestr fer o dros **500**
o ymgeiswyr, gan roi
cyfweiliad i dros **300** o bobl
am **160** o swyddi i gefnogi
ein gwasanaeth microbiolog

Cafodd
buddsoddiad
o dros
£1m

ei sicrhau er mwyn
cymryd camau yn erbyn
gordewdra ac atal diabetes



Cyflawnwyd
cyllideb gytbwys
yn 2020-2021

40,000

o alwadau ffôn wedi
eu hateb ers sefydlu'r
Ganolfan Gyswllt
Genedlaethol



Cyfrannodd
tua
50

o staff at dîm
Goruchwyllo Dyddiol
COVID-19, 7 diwrnod
yr wythnos



Dros
1,000

o wahanol offer wedi
eu benthyg i staff i
helpu â threfniadau
gweithio gartref



Yr atgyfeiriadau ar wefan
Helpa Fi i Stopio wedi
cynyddu o 4,162 i 5,950,
gyda thros **60%** yn
derbyn cymorth

Dros
120

o staff wedi cael eu
recriwtio i helpu ein
hymateb i ddiogelu
iechyd y cyhoedd




Wedi
cyfrannu at
23

o weithgareddau
ymchwil dros y
12 mis diwethaf



Roedd dros
3,700


o samplau yn cael eu
prosesu bob wythnos
yn ystod cyfnod brig
COVID-19 (o'i gymharu â
200 cyn COVID-19)



Sefydlwyd

3

labordy rhanbarthol i
weithio 24 awr y dydd,
7 diwrnod yr wythnos



6

labordy 'gwib' ac 1 labordy
mawr newydd wedi'u
creu i gynorthwyo gyda
phrofion COVID-19 cyflym



72


o gwynion a
12 digwyddiad
difrifol wedi eu
hadrodd yn
2020-2021



Tua

1,400

o staff wedi cael eu dos
cyntaf erbyn mis Mawrth
2021 (62%), gyda thros
930 wedi eu brechu'n
llawn (42%)




622,000

o wahoddiadau sgrinio,
gyda dros 394,000 yn
cael eu sgrinio

Dros
11,000

o smygwyr wedi ymuno
â gwasanaethau Helpa
Fi i Stopio



Mynychu cyfarfod
Pwyllgor Iechyd,
Gofal Cymdeithasol a
Chwaraeon y Senedd
4 gwaith a'r Pwyllgor
Cyfrifon Cyhoeddus
unwaith



CYFLWYNIAD

Mae pandemig y coronafeirws (COVID-19) wedi cael effaith aruthrol ar gymdeithas, gan gynnwys ar iechyd a llesiant pobl ac ar yr economi fyd-eang.



Fel sefydliad iechyd cyhoeddus cenedlaethol Cymru, fe wnaethom lansio ymateb digynsail i'r pandemig ar ddechrau 2020 i ddiogelu iechyd pobl. Fe wnaethom hyn drwy gefnogi'r polisi a osodwyd gan Brif Weinidog Cymru i arwain Cymru allan o'r pandemig a chyflawni strategaeth Llywodraeth Cymru, 'Profi Olrhain Diogelu'. Mae natur ein hymateb ni, ac ymateb ein partneriaid, wedi datblygu gryn dipyn yn ystod y cyfnod hwn, ac mae hyn wedi digwydd ar yr un pryd ag y gwnaeth y DU adael yr Undeb Ewropeaidd.

Y pandemig oedd ein prif flaenoriaeth, ac rydym wedi gorfod defnyddio ein holl adnoddau i ymateb iddo. At hynny, rydym hefyd wedi dechrau gweithio ar y goblygiadau uniongyrchol ac anuniongyrchol i iechyd pobl Cymru dros y tymor hir.

Cafodd hyn ei adlewyrchu yn ein Cynllun Gweithredol ar gyfer 2020-2021 pan gafodd ei adolygu ganol y flwyddyn, a chafodd hyn ei gymeradwyo gan ein Bwrdd ym mis Hydref 2020.


Mae'r cynnydd yr ydym wedi ei wneud hyd yma yn deillio o'r ymdrechion a'r ymroddiad anhygoel gan ein staff, yn enwedig dros y flwyddyn ddiwethaf wrth i ni weithio'n ddiflino i ymateb i'r pandemig. Mae'r staff wedi cael eu symud o gwmpas y sefydliad i gynorthwyo â'n hymateb, ac mae hyn wedi ein galluogi i ddefnyddio amryw o sgiliau iechyd cyhoeddus a sgiliau gwella, arwain a rheoli. Rydym yn cydnabod yr effaith y mae hyn wedi'i chael, ar lefel bersonol a phroffesiynol, ac rydym yn awyddus i sicrhau ein bod yn parhau i flaenoriaethu a chefnogi llesiant a gwydnwch ein staff.

DATBLYGU'R CYNLLUN A ADOLYGWYD GANOL Y FLWYDDYN

Mae ein hymateb eithriadol i COVID-19 wedi golygu ein bod wedi gorfod asesu sut yr ydym yn cyflawni cynlluniau yr oeddem wedi cytuno arnyn nhw'n flaenorol. Mae hyn wedi ein herio i ystyried nid yn unig y camau sydd angen i ni eu cymryd ar unwaith wrth ymateb i'r pandemig, ond hefyd y goblygiadau dros y tymor hir i bobl Cymru. Rydym hefyd wedi ystyried materion

allweddol eraill a fydd yn effeithio ar iechyd pobl, yn enwedig Brexit. Wrth wneud hyn, rydym wedi glynu wrth ein strategaeth hirdymor, 'Gweithio i wireddu dyfodol iachach i Gymru', fel y gwelir yn y diagram isod, a'r gwaith y gwnaethom ei ddechrau cyn y pandemig i gytuno beth yw rhai o'r prif ganlyniadau iechyd cyhoeddus a fydd yn effeithio ar ein gwaith yn y dyfodol.

Ein Blaenoriaethau
2018-2030





Oeddech chi'n gwybod?

Ystyr defnyddio gwybodaeth yn effeithiol yw sicrhau ei bod yn fwy hygyrch ac yn haws ei defnyddio


Dylanwadu ar benderfynnyddion ehangach iechyd: Ystyr penderfynnyddion ehangach iechyd yw'r ffactorau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol sy'n dylanwadu ar iechyd, llesiant ac anghydraddoldebau. Drwy ddylanwadu ar sut y mae polisiâu a strategaethau lleol a chenedlaethol sy'n ymwneud â'r penderfynnyddion hyn yn cael eu dylunio a'u rhoi ar waith, byddwn yn gwella llesiant pobl ac yn lleihau anghydraddoldebau iechyd.



Y prif benderfynnyddion iechyd a llesiant yw ein teulu, ein ffrindiau a'n cymuned, ansawdd a diogelwch ein cartref, lefel ein haddysg a'n sgiliau, argaeledd gwaith da, arian ac adnoddau, a'n hamgylchfyd.

Mae'r diagram yn dangos ein meysydd blaenoriaeth a'n gwasanaethau allweddol fel y cânt eu nodi yn y Cynllun Gweithredol y gwnaethom ei adolygu ganol y flwyddyn, a rhoddir rhagor o wybodaeth am y gwaith sylweddol yr ydym wedi'i wneud ym mhob maes blaenoriaeth yn yr adrannau sy'n dilyn yn y ddogfen.

Ein Cynllun Gweithredol 2020-2021



YMATEB I COVID-19 O SAFBWYNT DIOGELU IECHYD

Ein rôl

Ein rôl ni wrth ymateb i'r pandemig COVID-19 yw darparu arweinyddiaeth a chyngor arbenigol ar ddulliau a chymau gweithredu o ran iechyd y cyhoedd. Rydym yn gyfrifol am gydlynw'r gwaith o olrhain cysylltiadau, cynghori ar samplau a phrofion, a chynnal dadansoddiad labordy a dilyniannu genomau mewn perthynas â phrofion. Rydym hefyd yn gyfrifol am fonitro iechyd pobl a chynnig cyngor arbenigol i ddiogelu iechyd.

Mae ein dadansoddiad a'n cyngor arbenigol hefyd yn cefnogi'r ymateb i glystyrau lleol o achosion COVID-19.

Beth wnaethom ni

Ar ddechrau'r pandemig, cafodd ein staff eu rhoi ar waith yn gyflym a rhoesom hyfforddiant iddyn nhw i'w helpu i ymgymryd â'u rolau newydd.

Fe wnaethom sefydlu Canolfan Gyswllt Genedlaethol i roi cyngor ar ddiogelu iechyd a oedd yn arbenigol ac yn gyflym mewn perthynas ag achosion a materion a godwyd gan y timau Profi Olrhain Diogelu rhanbarthol. Fe wnaethom hefyd sefydlu llinell gyngor dros y ffôn ar gyfer ymholiadau gan weithwyr iechyd proffesiynol yng Nghymru, ynghyd â sefydlu tîm ymatebol cenedlaethol ar gyfer diogelu iechyd, gan newid strwythur y tîm Diogelu Iechyd Ymatebol er mwyn cynnig ymateb arbenigol rhanbarthol a rheoli'r cynnydd mewn clystyrau o achosion COVID-19 ledled Cymru. Roedd hyn yn golygu y gallem gefnogi ein harweinwyr, darparu cyngor gwell ar glystyrau ac achosion o COVID-19, a chynnig gwasanaeth a oedd yn bodloni anghenion ardaloedd penodol.

Yn sgil y pandemig, daeth yn amlwg bod angen cryfhau'r system genedlaethol ar gyfer diogelu iechyd i sicrhau y gall ymdopi â'r galw yn y dyfodol i wasanaethu pobl Cymru. Cawsom gymeradwyaeth weinidogol i gael buddsoddiad ychwanegol yn ein gwasanaethau microbioleg (gweler yr adran isod ar wasanaethau microbioleg am ragor o wybodaeth).

Cafodd buddsoddiad arall o £6.147 miliwn hefyd ei gymeradwyo ar gyfer ein gwasanaeth diogelu iechyd (gan gynnwys monitro gwaith diogelu iechyd a chlefydau trosglwyddadwy). Bydd yr arian hwn yn helpu i gryfhau'n sylweddol y gwasanaethau arbenigol i ddiogelu iechyd yng Nghymru. Mae'n ein galluogi i recriwtio nifer o rolau allweddol, a fydd yn golygu y gall staff a symudwyd o rannau eraill o'r sefydliad yn ystod y pandemig ddychwelyd i'w rôl arferol. Yn ei dro, bydd hyn yn ein helpu i ailgychwyn y rhan fwyaf o'n prif wasanaethau diogelu iechyd yn ystod 2021-2022, gan ddibynnu a fydd y pandemig yn codi ei ben unwaith eto.

Monitro sut y mae clefyd yn lledaenu o fewn ein poblogaeth

Rydym wrthi'n barhaus yn monitro pa mor aml y mae afiechyd a marwolaethau'n digwydd yn sgil clefydau trosglwyddadwy (sef heintiau a all gael eu trosglwyddo o un person i berson arall neu o anifeiliaid, bwyd, dŵr neu'r amgylchedd i berson) a ble mae hynny'n digwydd. Rydym hefyd yn monitro'r risg yn sgil yr heintiau hynny.

Mae'r gwaith monitro hwn yn dangos i ni pa heintiau sydd fwyaf arwyddocaol o ran achosi salwch, anabledd a marwolaeth, ac felly gallwn benderfynu sut i'w rheoli a'u hatal. Mae'r gwaith monitro hefyd yn dangos pa grwpiau o bobl yr effeithir arnynt waethaf (er enghraifft, plant neu bobl hŷn, dynion neu fenywod, pobl sy'n byw mewn ardaloedd penodol o'r wlad).

Mae mwy o angen nag erioed i fonitro'n brydlon a chasglu gwybodaeth i'n helpu wrth ymateb i'r pandemig. Mae ein Canolfan Wyliadwriaeth ar gyfer Clefydau Trosglwyddadwy hefyd wedi sicrhau bod cynlluniau cadw gwyliadwriaeth (monitro) hanfodol eraill yn dal i gael eu cynnal, gan ail-flaenoriaethu, lleihau neu wella'r cynlluniau lle bo angen, ac mae'r Ganolfan wedi cymryd adnoddau o fannau eraill yn y sefydliad i'w defnyddio ar gyfer y tîm cadw gwyliadwriaeth lle bo angen.

Mae staff y Ganolfan wedi datblygu a lansio systemau goruchwyllo newydd, ac maent wedi chwarae rôl arweiniol wrth ddatblygu gweithdrefnau a systemau i gefnogi ystod o ymatebion i COVID-19. Mae hyn yn cynnwys gwaith monitro cyflym ar gyfer marwolaethau mewn ysbytai, systemau'n ymwneud â data ar olrhain cysylltiadau, datblygu Tarian (ein system ar gyfer rheoli achosion o glefydau trosglwyddadwy), astudiaethau plasma ymadfer a serowyliadwraeth, monitro amrywiolion a mwtaniadau sy'n peri pryder a chefnogi treialon brechlyn COVID-19.

Oeddech chi'n gwybod?

Ystyr serowyliadwraeth yw profi gwaed pobl ymysg y boblogaeth gyffredinol i weld a oes ganddynt wrthgyrff ar gyfer feirws penodol.



I gyflawni hyn, fe wnaethom ddefnyddio adnoddau o rannau eraill o'r sefydliad i fodloni'r galw cynyddol. Rydym hefyd wedi cael cyllid i ychwanegu at yr adnoddau o fewn y Ganolfan Wyliadwriaeth ar gyfer Clefydau Trosglwyddadwy fel rhan o'r gwaith diogelu iechyd.

Fel rhan o'n rôl diogelu iechyd, rydym wedi darparu cyngor arbenigol a chefnogi ystod eang o bartneriaid a gwasanaethau ymateb eraill, gan gynnwys GIG Cymru, awdurdodau lleol, gwasanaethau argyfwng, y system gyfiawnder droseddol, y sector addysg, gofal cymdeithasol a gwasanaethau gwirfoddol. Yn ystod pob cam o'n hymateb i'r pandemig, rydym wedi parhau i roi cyngor arbenigol ar iechyd y cyhoedd i Lywodraeth Cymru, yn enwedig i'r Prif Swyddog Meddygol.

Mae'r Uned **Genomau Pathogen (PenGU)** wedi bod yn gweithio â phartneriaid allweddol i ddilyniannu a dadansoddi pob sampl coronafeirws sydd ar gael gan gleifion yng Nghymru. Rydym wedi dod yn flaenllaw ar lefel fyd-eang ym maes genomau COVID-19, wrth i ni ddilyniannu a rhannu mwy o enomau'r coronafeirws nag unrhyw wlad arall yn y byd heblaw'r Unol Daleithiau a Lloegr. Mae'r gwasanaeth wedi bod yn dilyniannu oddeutu 2,000 o samplau bob wythnos yn dilyn buddsoddiad cychwynnol gan Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn waith sy'n torri tir newydd, ac rydym yn eithriadol o falch o gael sylw mor gadarnhaol yn y cyfryngau.

"Gall gwybodaeth ynghylch genomau unrhyw organeb byw ddweud llawer iawn wrthym am y pathogen neu'r unigolyn penodol hwnnw – yn yr achos yma, y coronafeirws. Gallwch astudio a dadansoddi'r feirws ar lefel fanwl iawn i ddarganfod beth yw ei gyfrinachau. Gallwn weld a allwn ddatblygu profion diagnostig gwell, er enghraifft, gan fod profion diagnostig yn seiliedig ar beth yw'r dilyniant. Os oes newid yn y dilyniant, gallai hyn effeithio ar eich gallu i adnabod y feirws yn effeithiol."

(Dr Sally Corden, Pennaeth PenGU)

Oeddech chi'n gwybod?

Mae dilyniannu genomau yn dechneg a ddefnyddir mewn labordai i adnabod eich DNA (sef eich cod genetig unigryw chi sydd i'w gael ym mron i bob cell yn eich corff).





Rhaglen frechu COVID-19

Mae'r ymateb i'r pandemig COVID-19 dros y tymor hir yn gofyn am frechlyn sy'n ddiogel ac yn effeithiol, ac sydd ar gael i bawb sydd ei angen. Mae cynnydd cyflym wedi'i wneud wrth ymchwilio i nifer fawr o frechlynnau posibl ar gyfer COVID-19 ac wrth baratoi i gynhyrchu'r brechlynnau. Mae Cymru wedi cymryd rhan yn y gwaith ymchwil hwn, gan arwain rhan o dreialon cam III brechlyn COVID-19 Prifysgol Rhydychen-AstraZeneca a gafodd eu cynnal yng Nghymru.

Ers mis Mai 2020, rydym wedi bod yn rhan o'r gwaith o arwain y broses gynllunio genedlaethol ar gyfer cyflwyno rhaglen frechu COVID-19 yng Nghymru. Cafodd y rhaglen frechu ei lansio ar 8 Rhagfyr 2020 gan ddefnyddio brechlyn COVID-19 Pfizer BioNTech, sef y brechlyn COVID-19 cyntaf a gafodd ei awdurdodi gan reoleiddiwr unrhyw le yn y byd. Mae brechlyn Prifysgol Rhydychen-AstraZeneca wedi cael ei ddefnyddio yn y rhaglen frechu ers 4 Ionawr 2021. Erbyn diwedd mis Mawrth 2021, roedd tua 1.4 miliwn o bobl wedi cael un dos o frechlyn, a tua 400,000 wedi eu brechu'n llawn.

Mae'r rhaglen yn un uchelgeisiol ac ar raddfa fawr, a'r nod yn y pen draw yw cynnig brechlyn COVID-19 i bawb dros 16 oed ledled Cymru.

Rydym wedi cefnogi'r rhaglen drwy gynnig arweinyddiaeth, arbenigedd a chynghor i Lywodraeth Cymru, adnoddau gwybodaeth i weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol, cadw gwyliadwriaeth, hyfforddiant, cyfarwyddyd grŵp cleifion drwy'r Rhaglen Clefydau y Gellir eu Hatal Drwy Frechlyn, a thrwy waith marchnata a chyhoeddi ein tîm cyfathrebu. Fe wnaeth Gwasanaeth Tystiolaeth yr Arsyllfa hefyd adolygu tystiolaeth o raglenni brechu torfol, a hynny'n gyflym. Mae ein staff cyllid wedi ein cynorthwyo gyda chynllunio cyllid a'r gyllideb. Mae Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru (a elwir bellach yn Iechyd a Gofal Digidol Cymru) wedi datblygu System Imiwneiddio Cymru ar gyfer gwahoddiadau a rheoli data ynghylch brechiadau.

Mae ein Rhaglen Clefydau y Gellir eu Hatal Drwy Frechlyn a'r Ganolfan Wyliadwriaeth ar gyfer Clefydau Trosglwyddadwy wedi llunio adroddiadau, gan gynnwys adroddiad ar y rhai sy'n dewis derbyn brechiad a chanlyniadau'r rhaglen. Mae adroddiadau yn cael eu darparu ar y sefyllfa'n ddyddiol, gan gynnwys canlyniadau o ran diogelwch brechlynnau, i arweinwyr rhaglenni. Rydym bellach yn cyhoeddi gwybodaeth am waith goruchwyli bob dydd lau yn ein hadroddiad COVID-19, sydd i'w weld yma:



<https://public.tableau.com/app/profile/public.health.wales.health.protection/viz/RapidCOVID-19virology-Public/Headlinesummary>

Rydym hefyd wedi datblygu gwefan i rannu negeseuon allweddol â'r cyhoedd, sy'n cynnwys ardal i weithwyr proffesiynol sy'n rhan o'r gwaith brechu ond nad ydynt yn cael eu cyflogi gan y GIG ac felly nid oes ganddynt fynediad at yr adnoddau ar dudalennau mewnwyd y Rhaglen Clefydau y Gellir eu Hatal drwy Frechlyn:




<https://icc.gig.cymru/pynciau/imiwneiddio-a-brechlynnau/gwybodaeth-brechlyn-covid-19>

Mae tîm y Rhaglen Clefydau y Gellir eu Hatal drwy Frechlyn wedi creu gwybodaeth i'r cyhoedd ac i weithwyr proffesiynol, adroddiadau cadw gwyliadwriaeth ac adroddiadau eraill, deunyddiau hyfforddiant, canllawiau a dogfennau eraill (gan gynnwys cyfarwyddydau grŵp cleifion) i fyrddau iechyd ac ymddiriedolaeth eu defnyddio adeg lansio'r brechlyn. Byrddau Iechyd sy'n gyfrifol am drefnu'r brechiadau a rheoli'r rhaglen.



**Mae Brechu yn achub bywydau
Vaccination saves lives**



Olrhain cysylltiadau

Mae olrhain cysylltiadau yn ddull dibynadwy o reoli lledaeniad clefydau heintus. Mae'r dull hwn hefyd yn helpu i atal clefydau a deall sut maen nhw'n cael eu trosglwyddo o un person i'r llall. Cafodd y Gwasanaeth Olrhain Cysylltiadau Cenedlaethol ei sefydlu ddechrau mis Mehefin.

Rydym yn cydlynu ar lefel genedlaethol, yn darparu cyngor arbenigol ac yn cynorthwyo â blaenoriaethau a dulliau olrhain cysylltiadau. Mae hyn yn cynnwys gosod y safonau a'r canllawiau ar gyfer Cymru gyfan o ran sut y dylid olrhain cysylltiadau.

Wrth sicrhau bod system drylwyr ar waith i oruchwyllo iechyd, gallwn hefyd ddeall pa gysylltiadau a lleoliadau sydd â'r risg uchaf o drosglwyddo'r clefyd, ac mae hyn yn ei dro yn ein helpu i lywio ein gwaith olrhain cysylltiadau a phrofi. Mae'r gwaith olrhain cysylltiadau yn cael ei wneud ar lefel ranbarthol gan fyrdau iechyd ac awdurdodau lleol yn gweithio mewn partneriaeth â gwasanaethau cyhoeddus eraill i ddefnyddio timau sy'n deall eu cymunedau lleol a'u sefyllfaoedd lleol. Mae angen nifer fawr o bobl er mwyn olrhain cysylltiadau. Caiff y timau eu rheoli yn lleol a'u cydlynu'n rhanbarthol, ac maent yn defnyddio fframwaith gweithredu cenedlaethol yr ydym ni wedi ei ddatblygu.

Brechlyn COVID-19 i staff

Erbyn diwedd mis Mawrth roedd

62%

o'n gweithlu wedi cael eu dos cyntaf o'r brechlyn COVID-19

Erbyn diwedd mis Mawrth roedd

88%

o weithwyr rheng flaen wedi cael eu dos cyntaf o'r brechlyn COVID-19



Fe wnaethom lunio adroddiad brechlyn COVID-19 i staff (gweler isod) i helpu i fonitro faint o'n staff oedd yn cael y brechiad, gan ganolbwyntio'n benodol ar y prif grwpiau blaenoriaeth yn ystod y cyfnod cynnar o roi brechiadau. Rydym yn parhau i gymryd camau i wella ein dealltwriaeth o ran faint o bobl sy'n dewis cael y brechlyn.

Yn ôl ffigurau a adroddwyd ar ddiwedd mis Mawrth, roedd 1,390 o aelodau o staff (62% o'n gweithlu) wedi cael eu dos cyntaf, gyda thros 930 wedi cael eu brechu'n llawn (42%). O ran ein gweithwyr rheng-flaen, roedd 851 wedi cael eu dos cyntaf (88%) ac roedd 741 o weithwyr rheng-flaen wedi cael eu brechu'n llawn (76%). Nid yw'r ffigurau'n cynnwys yr holl staff a gafodd eu brechu yn Lloegr.

CANLYNIADAU IECHYD Y BOBLOGAETH

Mae'r pandemig COVID-19 wedi cael effaith fawr iawn ar bobl ar draws y byd, yn ogystal ag yng Nghymru. Mae'r feirws a'r mesurau i'w reoli yn achosi niwed ar raddfa eang, fel salwch a gwaethygiad mewn llesiant, ac effeithiau negyddol sylweddol yn gymdeithasol ac i'r economi.

Mae'r pandemig hefyd wedi gwaethygu anghydraddoldebau iechyd presennol ac mae wedi effeithio ar rai grwpiau'n fwy nag eraill, fel pobl ddu, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig (BAME). Mae'n hollbwysig ein bod yn deall effeithiau COVID-19 yn llwyr, gan gynnwys goblygiadau y camau rydym yn eu cymryd i reoli sut mae'r feirws yn cael ei drosglwyddo.

Wrth i ni edrych tua'r dyfodol, mae angen i ni ddefnyddio'r wybodaeth hon i gefnogi penderfyniadau polisi ac wrth weithio ar draws y sefydliad a gwasanaethau iechyd ehangach, i atal niwed i iechyd yn y dyfodol, i helpu'r boblogaeth i adfer yn dilyn effeithiau'r pandemig, i nodi a chefnogi cyfleoedd, ac i gyfrannu at welliant parhaus mewn iechyd a lleihau lefelau anghydraddoldebau. I gefnogi'r rhaglen Profi Orlhain Diogelu, rydym wedi cyfrannu at opsiynau polisi i gyflawni'r cydbwysedd gorau posibl rhwng mesurau i reoli'r feirws a'i effeithiau negyddol posibl. Drwy waith monitro i ddeall y tueddiadau ehangach o ran iechyd a llesiant a'r gwersi a ddysgir drwy amrywiol sianeli, fe wnaethom ganolbwyntio ar y pedwar maes canlynol o wybodaeth.

1 Arolwg cenedlaethol i ymgysylltu â'r cyhoedd i ddeall effeithiau ehangach mesurau COVID-19 ar draws Cymru ac ymhlith grwpiau penodol o bobl a deall sut y mae pobl yn dilyn y cyngor

2 Sganio'r gorwel ar lefel ryngwladol, gan ymchwilio, gwerthuso a dadansoddi tystiolaeth ryngwladol i helpu i lywio polisiâu a chynorthwyo Cymru wrth ymateb i'r pandemig COVID-19. Mae hyn wedi helpu i greu cysylltiadau cryf ag asiantaethau a phartneriaid rhyngwladol er mwyn datblygu dealltwriaeth a dysgu gwersi gan wledydd eraill

3 Asesiadau o effaith COVID-19 ar iechyd i annog dull 'llywodraeth gyfan' a 'chymdeithas gyfan' wrth gynllunio ar gyfer adfer o'r pandemig a'r ymyriadau i gefnogi'r adferiad hwnnw

4 Datblygu adroddiad ar dueddiadau ehangach yn ymwneud ag iechyd a llesiant



Astudiaeth achos: Arolwg cenedlaethol i ymgysylltu â'r cyhoedd a sganio'r gorwel ar lefel ryngwladol

Roedd y Cynllun Ymateb Er Mwyn Diogelu Iechyd y Cyhoedd, a gafodd ei ddatblygu ym mis Mai 2020, yn cydnabod y gall mesurau i gyfyngu a rheoli COVID-19, a'r salwch a ddaw yn sgil y feirws, gael effeithiau niweidiol anfwriadol posibl ar iechyd a llesiant pobl yn y tymor byr a'r tymor hir. Oherwydd hynny, mae'n hollbwysig ein bod yn deall yr effeithiau hyn cyn gynted â phosibl, ein bod yn monitro datblygiad yr effeithiau hynny, ac yn edrych ar dystiolaeth ac atebion perthnasol i Gymru, ynghyd â llywio polisïau a threfniadau gwneud penderfyniadau er mwyn lleihau'r niwed (neu wneud cyn lleied o niwed â phosibl) lle bynnag y bo'n bosibl.

Yn ystod y pandemig, mae Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd ar Fuddsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant wedi bod wrthi'n ymchwilio, yn gwerthuso ac yn dadansoddi tystiolaeth ryngwladol i helpu i lywio polisïau a chefnogi ymateb Cymru i'r pandemig COVID-19. Fe wnaethom gynnal arolwg cenedlaethol i ymgysylltu â'r cyhoedd er mwyn deall yn well sut y mae'r cyhoedd yn derbyn ac yn dilyn y mesurau i atal lledaeniad COVID-19, i fonitro'r effeithiau ehangach y pandemig ar iechyd corfforol ac iechyd meddwl, ac i gael dealltwriaeth o sut y mae wedi effeithio ar wahanol grwpiau a chymunedau yn y boblogaeth (er enghraifft, grwpiau oedran, lefelau amddifadedd, cymunedau BAME a phobl â chyflyrau iechyd cronig). Bydd canlyniadau'r arolwg yn parhau i'n helpu ni, Llywodraeth Cymru a'n rhanddeiliaid allweddol eraill wrth wneud penderfyniadau.

Mae COVID-19 yn bandemig byd-eang sy'n gofyn am ymatebion sy'n seiliedig ar wybodaeth ac wedi'u cydlynw ar lefel fyd-eang. Mae Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd wedi defnyddio ein cysylltiadau a'n partneriaethau rhyngwladol cryf i sefydlu system sganio'r gorwel ar lefel ryngwladol i ddeall materion sy'n ymwneud â COVID-19 – ac mae hyn wedi rhoi crynodebau polisi cyfredol, gwybodaeth a chipolwg ar ddatblygiadau eraill ledled y byd. Rydym yn cydweithio'n agos â Swyddfa Ranbarthol Sefydliad Iechyd y Byd ar gyfer Ewrop, gan gael gwybodaeth am y gwersi

diweddaraf yn fyd-eang ac ar draws Ewrop o ran effeithiau ehangach COVID-19 ar iechyd a llesiant pobl, ar gydraddoldeb, ar y gymuned a chymdeithas, ac ar yr economi. Mae ein tîm Iechyd Rhyngwladol wedi bod yn helpu i rannu a defnyddio gwersi a phrofiadau rhyngwladol gan amryw o rwydweithiau a sefydliadau yn Ewrop ac ar draws y byd, ac ar y cyd â Lloegr, yr Alban, Gogledd Iwerddon a Gweriniaeth Iwerddon. Mae'r systemau a'r rhwydweithiau rhyngwladol hyn eisoes wedi sicrhau bod ein ffordd o feddwl a'n hymatebion yn cael eu llywio'n rheolaidd gan wersi rhyngwladol, a dyna fydd yr achos o hyd wrth i ni reoli'r effeithiau ehangach ar iechyd y cyhoedd yn sgil COVID-19 hyd at yr adferiad.

Roedd yr arolwg a'r gwaith sganio'r gorwel ar lefel ryngwladol yn bosibl drwy ddefnyddio staff ar draws cyfarwyddiaeth Canolfan Gydweithredu Sefydliad Iechyd y Byd a'r sefydliad yn ehangach, a thrwy gomisiynu gwaith i wneud y mwyaf o'r arbenigedd a oedd ar gael drwy bartneriaethau. Fe wnaeth yr holl bethau hyn helpu i barhau i gefnogi a chyflawni ein gwaith. Rydym yn rhannu adroddiadau'n rheolaidd ar ein holl waith â rhanddeiliaid allweddol ar draws Cymru ac yn rhyngwladol. Mae'r adroddiadau hyn yn trafod ein harolwg, y gwaith sganio'r gorwel ar lefel ryngwladol a phynciau eraill, gan gynnwys asesiadau o'r effaith ar iechyd, materion sy'n ymwneud â COVID-19 ac sy'n cysylltu iechyd a chyfiawnder troseddol, a materion llesiant sy'n deillio o'r newid yn y rhagolygon economaidd. Byddwn yn parhau i edrych ar y materion hyn, gan gynnwys profion COVID-19, atal pobl rhag dal y clefyd wrth lacio'r cyfyngiadau, adfer systemau iechyd, ailagor ysgolion a cholegau, a'r effaith ar gyflogaeth a'r economi.

Mae ein gwaith yn bwysig o ran ein hatgoffa bod effeithiau COVID-19 ar iechyd y cyhoedd yn llawer ehangach na'r clefyd ei hun, a byddant yn parhau'n llawer hwy na'r pandemig ei hun. Rydym yn falch iawn o fod wedi gweithio â chydweithwyr ar draws Iechyd Cyhoeddus Cymru a sefydliadau eraill wrth gyflawni'r gwaith hwn, ac rydym yn edrych ymlaen at barhau i weithio gyda'n gilydd dros y 12 mis nesaf.

Mae gwaith yr Adran Ymchwil a Gwerthuso yn cefnogi ein hymchwil. Mae eu rhaglen o waith ymchwil a gwerthuso wedi canolbwyntio ar gael y ddealltwriaeth a'r dystiolaeth sydd eu hangen i ddeall yn well yr effaith uniongyrchol ac anuniongyrchol y mae COVID-19 yn ei chael ar iechyd pobl Cymru. Mae'r Adran wedi cyflawni hyn drwy ddilyn tair prif flaenoriaeth.

1 Deall pa mor effeithiol ac effeithlon yw ein cyfraniad at y rhaglen Profi Orlhain Diogelu

2 Cynhyrchu deunyddiau gwybodaeth newydd ar effaith anuniongyrchol COVID-19 ar iechyd a chymunedau

3 Ein cefnogi wrth gyfrannu at y wybodaeth ryngwladol am COVID-19 drwy waith ymchwil



Dywedodd ein Cadeirydd...

"Mae gwaith yr **Is-adran Ymchwil a Gwerthuso** yn chwarae rhan ganolog wrth gefnogi'r ymchwil a wneir ar draws lechyd Cyhoeddus Cymru. Mae gweithio mor ystwyth a hyblyg dros y flwyddyn ddiwethaf wedi arwain at gyfleoedd mawr. Arweiniodd ein rôl strategol arweiniol wrth ymchwilio i frechlyn at sefydlu astudiaethau brechlyn yng Nghymru mewn da bryd; fe wnaethom lansio tîm Ymchwil a Gwerthuso fel rhan o'r Ymateb Estynedig, gyda'r tîm yn gweithio fel pwynt cyswllt unigol i gysylltu a blaenoriaethu cyfleoedd ymchwil ar draws y sefydliad cyfan a chyfraniad lechyd Cyhoeddus Cymru dros y 12 mis diwethaf at 23 o weithgareddau ymchwil COVID-19 – naw ohonynt gyda chyllid lechyd Cyhoeddus Cymru ac 14 ohonynt wedi eu hariannu'n allanol.

"O'r 23 astudiaeth hon, lechyd Cyhoeddus Cymru yw'r prif ymchwilydd mewn 13 ohonynt, ac mae'n gydweithredwr yn y 10 astudiaeth arall. Mae hyn yn dipyn o gamp mewn amgylchiadau heriol tu hwnt!

"Mae gwaith yr Is-adran Ymchwil a Gwerthuso yn dangos sut yr ydym yn ymgymryd â rôl lechyd Cyhoeddus Cymru fel y prif sefydliad iechyd cyhoeddus Cymru. Rydym yn flaenllaw mewn gweithgareddau ymchwil ym maes iechyd y cyhoedd a'r syniadau am COVID-19, ac rydym yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnynt i'n partneriaid a'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau er mwyn iddynt allu dylanwadu ar iechyd pobl Cymru."

PARHAU AC AILGYCHWYN GWASANAETHAU HANFODOL

Ers i'r pandemig ddechrau, ein prif ffocws oedd yr ymateb iddo ar lefel genedlaethol a rhanbarthol. Wrth i'r pandemig ddatblygu, rydym wedi cytuno'n ffurfiol i ailgychwyn, neu 'gynyddu', rhai gweithgareddau a gwasanaethau iechyd cyhoeddus allweddol y bu'n rhaid iddyn nhw ddod i stop yn gynharach yn 2020.

Roedd hyn yn cynnwys adnabod a rheoli'r risgiau yn sgil oedi ac ailgychwyn gwasanaethau. Er gwaethaf rhai heriau sylweddol, rydym wedi gwneud cynnydd da yn hyn o beth. Yn benodol, rydym wedi ailgychwyn:

- pob gwasanaeth hanfodol i'w lefel darged flaenorol, heblaw am y Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff – gweler isod am fwy o wybodaeth; ac
- ein gwasanaethau sy'n flaenoriaeth, er bod rhai wedi cael trafferthion i gynnal eu lefelau gweithgarwch. Roedd mwy o bwysau allanol i adfer gwasanaethau ymhellach mewn rhai meysydd, ond nid yw hyn wedi bod yn bosibl hyd yma.

Mae diwallu anghenion ein gweithlu, ac ar yr un pryd barhau i ailgychwyn ein prif weithgareddau iechyd cyhoeddus a gwella arweinyddiaeth a'r gwasanaethau y mae'n rhaid i ni eu darparu yn ôl y gyfraith, wedi bod yn heriol drwy gydol y flwyddyn.

Bu'n rhaid i ni roi stop ar rai rhaglenni gwaith sylweddol y byddai disgwyl i ni eu darparu fel arfer, neu dim ond eu hailgychwyn yn rhannol. Drwy gydol y cyfnod, rydym wedi ceisio rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Lywodraeth Cymru a'n prif randdeiliaid eraill o ran ein sefyllfa bresennol, ac rydym yn ceisio sicrhau bod staff yn gallu dychwelyd at ein prif fusnes os yw hynny'n bosibl.

Yn sgil yr ansicrwydd parhaus am ddyfodol y pandemig, a heb wybod beth fydd y 'normal newydd' i iechyd cyhoeddus, bydd ein cynlluniau a'n rhagdybiaethau yn parhau i newid. Bydd ein gallu i 'ailgychwyn' fel sefydliad yn dibynnu ar ba mor effeithiol yw'r rhaglen frechu genedlaethol yn erbyn COVID-19, beth yw effaith amrywiolion newydd, a yw'r cyhoedd yn parhau i ddilyn y canllawiau ac a allwn ni recriwtio'r staff ychwanegol sydd eu hangen arnom yn gyflym i'n helpu i ymateb i'r pandemig. Bydd yn rhaid i ni barhau i fod yn wiliadwrs a sicrhau ein bod yn adolygu'r sefyllfa drwy gydol y flwyddyn.



Sgrinio

Yn ystod cyfnod cynnar y pandemig, cytunodd Llywodraeth Cymru â'n hargymhelliad i atal rhai rhaglenni sgrinio dros dro. Roedd hyn mewn ymateb i gyhoeddiad y Llywodraeth i ohirio apwyntiadau cleifion allanol nad oedden nhw'n rhai brys a llawdriniaethau a thriniaethau eraill er mwyn i staff ac adnoddau gael eu hailgyfeirio i helpu wrth ymateb i'r pandemig.

Cafodd hyn effaith ar rai rhaglenni sgrinio (Bron Brawf Cymru, Sgrinio Serfigol Cymru, Sgrinio Coluddion Cymru, Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru a Sgrinio Ymlediadau Aortig Abdomenol Cymru). Fe wnaeth y gwasanaethau Sgrinio Clyw Babanod, Sgrinio Smotyn Gwaed Babanod a Sgrinio Cynenedigol barhau ac ni chawsant eu stopio ar unrhyw adeg.

Wrth i nifer yr achosion o COVID-19 ddechrau lleihau, fe wnaethom ddechrau cynllunio i ailgychwyn y rhaglenni sgrinio. Fe wnaethom bennu'r amodau y mae angen eu bodloni er mwyn gwneud hyn, a defnyddio asesiadau risg i flaenoriaethu cleifion ac ailgyflwyno'r rhaglenni'n raddol fel y gellid cynnig gwasanaethau sgrinio'n ddiogel.

Rydym wedi parhau i gynnig y rhaglenni ers iddynt gael eu hailgychwyn. Fodd bynnag, rydym wedi lleihau nifer y bobl y mae gwasanaeth sgrinio yn cael eu cynnig iddyn nhw ym mhob clinig er mwyn sicrhau ein bod yn cadw at y rheolau COVID-19. Rydym wedi cyfyngu ar nifer y clinigau, mae llai o staff, mae cyfyngiadau ar sgrinio serfigol ac o ran darparu colonosgopi, ac mae llai o bobl yn cael eu gwahodd i'n rhaglen Sgrinio Llygaid Diabetig.

Mae cynnal y rhaglenni sgrinio drwy ail don y pandemig wedi bod yn heriol, ond mae pob rhaglen wedi parhau oherwydd ymdrechion arbennig ein staff a'r cyhoedd. Yr her nesaf y mae angen delio â hi ar frys yw datblygu cynllun adfer y rhaglenni ar gyfer 2021-2022, gan gofio ein bod wedi ein cyfyngu gan y trefniadau diogelwch COVID-19 y bu'n rhaid i ni eu rhoi ar waith.


Oeddech chi'n gwybod?

Mae labordy Is-adran Sgrinio Parc Magden, Llantrisant wedi cadw ei achrediad UKAS i safon ISO 15189:2012. Mae'r tîm wedi parhau i reoli a chyflawni gwasanaeth labordy o safon drwy gydol pandemig y coronafeirws. Roedd yr asesiad yn cydnabod bod y broses o ohirio ac ailgychwyn y rhaglenni wedi cael ei rheoli'n effeithiol, a'i chofnodi a'i chyfathrebu'n glir. Yn ystod yr 'ymweliad' ar-lein, ni wnaeth y tîm asesu ganfod unrhyw wendid sylweddol a oedd yn peri pryder. Roedd hefyd yn cydnabod bod lefel uwch o ddealltwriaeth o'r hyn sydd angen i ni ei wneud i fodloni safonau ISO, a bod hyn yn dangos bod y gwasanaeth wedi parhau i wella.

Ar y cyfan, daethpwyd i'r casgliad bod y gwasanaeth yn dal i gael ei gynnal gan staff cymwys yn unol â gofynion yr achrediad, a hynny er gwaethaf yr heriau yn sgil COVID-19.

Mae hyn yn gyflawniad arbennig wrth gynnal safonau mor uchel a chefnogi profion COVID-19 ar yr un pryd, gyda'r fath broffesiynoldeb a safon.





Brechu ac imiwneiddio

Rydym wedi parhau i ddarparu gwasanaethau brechu ac imiwneiddio hanfodol yn ystod y pandemig. Rydym wedi gorfod addasu'r ffordd yr ydym yn cynnig y gwasanaeth, ond rydym wedi parhau i fonitro'r rhaglen frechu rhag y fflw yn rheolaidd ynghyd â chlefydau eraill y gellir eu hatal â brechlyn, a faint o blant sydd wedi cael eu brechu fel rhan o'r prif raglenni plant.

Imiwneiddio plant

Er gwaetha'r pandemig, roedd y ffigurau diweddaraf a oedd ar gael o ran brechiadau rheolaidd i blant yn dal i fod yn uchel. Ymhlith plant un oed yng Nghymru, arhosodd y gyfradd a gafodd bob imiwneiddiad arferol yn uwch na 95%, heblaw am y rotafeirws. Cafodd 95.2% o blant y tri dos o'r brechlyn '6 mewn 1' (roedd hyn 95% neu'n uwch mewn pump o'r saith bwrdd iechyd ac mewn 15 o'r 22 ardal awdurdod lleol). Ni fu newid chwaith yng nghanran y plant a gafodd ddau ddos o'r brechlyn MMR erbyn iddynt droi'n bump oed, sef 92.1% (fymryn yn is na'r targed o 95%). Yn ogystal â'r gefnogaeth a'r arweinyddiaeth arferol, parhaodd tîm y Rhaglen Clefydau y Gellir eu Hatal Drwy Frechlyn i fonitro unrhyw effaith y mae COVID-19 a'r cyfyngiadau symud cenedlaethol wedi'u cael o ran nifer y plant hyd at bump oed sy'n cael brechiadau a phryd y maen nhw'n cael brechiadau.

Brechriad rhag y fflw

Mae tîm y Rhaglen Clefydau y Gellir eu Hatal drwy Frechlyn yn arwain y gwaith o gynllunio, cyflawni a gwerthuso rhaglen flynyddol genedlaethol y GIG o frechu rhag y fflw yng Nghymru. Manteisiodd y nifer uchaf erioed o bobl ar y brechriad rhag y fflw yng Nghymru yn 2020-2021, gyda thros 1 miliwn o oedolion a phlant wedi cael brechriad rhag y fflw dros y gaeaf. Y rhaglen brechu rhag y fflw eleni oedd y fwyaf erioed. Llwyddodd Llywodraeth Cymru i gael dros 400,000 o frechlynnau ychwanegol rhag y fflw, ac o 1 Rhagfyr 2020 cafodd y rhaglen ei hymestyn i bawb rhwng 50 a 64 oed.

Mae'r ffigurau cychwynnol ar gyfer 2020-2021 yn dangos bod 76.5% o bobl 65 oed a hŷn wedi cael brechriad rhag y fflw, o'i gymharu â 69.4% y flwyddyn flaenorol. Fe wnaeth 51% o'r rhai sy'n iau na 65 oed ac sydd ar restr risg clinigol dderbyn y brechriad – mae hyn hefyd yn uwch nag ar ddiwedd tymor 2019-2020. Mae nifer y plant dwy a thair oed a gafodd eu himiwneiddio rhag y fflw hefyd wedi cynyddu o 68.7% i 72.4%. Cafodd 65.2% o staff GIG Cymru sy'n dod i gysylltiad uniongyrchol â chleifion eu brechu rhag y fflw, sy'n uwch na'r 58.7% a gafodd eu brechu y flwyddyn flaenorol. Cafodd dros 10,000 o fenywod ar draws Cymru eu himiwneiddio. Fe wnaethom hefyd gynnal ymgyrch brechu rhag y fflw a fu'n llwyddiant ymhlith ein staff, gyda thros 63% o'n staff rheng-flaen yn cael eu brechu.



Gwasanaethau microbioleg

Yn sgil y pandemig COVID-19, roedd angen ymateb digynsail gan ein gwasanaeth microbioleg. Wrth i ni barhau i gynnal ein gweithgareddau nad ydynt yn ymwneud â COVID-19 (ond ar lefel is), bu'n rhaid i ni hefyd weithio'n gyflym i gyflwyno a chynyddu profion COVID-19 a darparu gwasanaeth clinigol i reoli cleifion â COVID-19.

Ar ddechrau'r pandemig, byddai meddygon ym maes clefydau heintus yn teithio i gartref pobl, gan wisgo cyfarpar diogelu personol, a byddent yn swabio pobl â symptomau. Yna, roedd gwasanaeth cludo yn mynd â'r swabiau hyn i labordy microbioleg Ysbyty Athrofaol Cymru i'w profi. Wrth i'r pandemig ddod yn fwyfwy amlwg, cynigiodd GIG Cymru wahanol opsiynau ar gyfer swabio, a chafodd y swabiau hyn eu hanfon i'n labordai i'w profi. Ar y dechrau, dim ond drwy Ganolfan Feiroleg Arbenigol Cymru yr oedd y prawf ar gael, ond gyda'r cynnydd mewn profion masnachol, newidiodd hyn yn raddol.

Gwnaed archebion yn gynnar iawn yng nghyfnod y pandemig, ond mae'r gadwyn gyflenwi fyd-eang o gyfarpar ac adweithredyddion profion yn dal i fod yn her sylweddol.

Oeddech chi'n gwybod?

Ystyr adweithredydd yw sylwedd neu gymysgedd sy'n cael ei ddefnyddio wrth ddadansoddi cemegion neu adweithiau eraill.



Fe wnaethom gyflwyno achos busnes i Lywodraeth Cymru gynyddu nifer ein profion COVID-19 a chaniatáu i ni ehangu ein gwasanaeth i gynnwys profion cyflym mewn ysbytai yn ogystal â darparu cymorth gyda brigiadau o achosion. Cafodd hyn ei gymeradwyo ym mis Awst 2020 ac fe wnaethom ddechrau recriwtio dros 160 o staff ar unwaith. Roedd yr achos busnes yn cynnwys y nodau a ganlyn, y gwnaethom lwyddo i'w cyflawni o fewn y terfyn amser a gytunwyd.



✓ Darparu gwasanaeth profi COVID-19 drwy'r dydd bob dydd yn ein tri labordy rhanbarthol erbyn 31 Hydref 2020

✓ Sefydlu chwe 'labordy gwib' erbyn 30 Tachwedd 2020

Hefyd, cafodd achos busnes ar gyfer labordy newydd ar safle Imperial Park 5 yng Nghasnewydd ei gymeradwyo ac roedd y labordy hwn ar agor erbyn 7 Rhagfyr 2020.

Yna, roedd yn rhaid i ni wneud mân addasiadau i'r ffordd yr oedd y system yn gweithio a sut y byddai'n gwella'r amseroedd prosesu profion COVID-19. O ran profion llif cyflym, mae gennym darged i ddychwelyd canlyniad y prawf o fewn pedair awr, ac rydym wedi llwyddo'n gyson i gyrraedd y targed hwn (fel arfer mewn llai na dwy awr). Ar gyfer profion sy'n cymryd mwy o amser i'w prosesu (swabiau nad ydyn nhw'n rhai cyflym), mae gennym darged i ddychwelyd canlyniad y prawf o fewn 12 awr neu lai. Ddechrau mis Ionawr 2021, dim ond 30% o'r samplau oedd yn cael eu prosesu yn y labordy o fewn 12 awr, ond erbyn diwedd y mis roedd hyn wedi cynyddu i 80%. Ein nod yw cynnal y perfformiad hwn a'i wella drwy gydweithio'n agos â'r gwasanaeth microbioleg a Gwelliant Cymru, sydd wedi cefnogi'r gwasanaeth microbioleg drwy ganfod ffyrdd o wella ein trefniadau profi ar gyfer COVID-19.



Helpa Fi i Stopio

Cafodd y gwasanaeth ffôn cenedlaethol Helpa Fi i Stopio ei lansio ym mis Hydref 2019. Roedd wedi ei anelu at smygwyr nad oedden nhw'n gallu defnyddio gwasanaethau cymunedol wyneb yn wyneb. Mae'r gwasanaeth hwn wedi dod yn fwyfwy pwysig wrth i wasanaethau wyneb yn wyneb gael eu hatal ac wrth i staff gael eu symud i gefnogi'r ymateb i'r pandemig.

Gan fod Helpa Fi i Stopio yn wasanaeth hanfodol, roedd gweithio yn adeilad Capital Quarter yn ystod y cyfnod o gyfyngiadau symud yn brofiad rhyfedd i'r tîm. Yn debyg i ganolfan gyswllt COVID-19, roedd y staff yn wynebu newidiadau sylweddol, gyda llai o drafnidiaeth gyhoeddus, swyddfa a chanol y ddinas a oedd fwy neu lai yn wag, a ffyrdd heb lawer o gerbydau arnyh.

Fe wnaeth y ganolfan addasu'n gyflym i reoli'r gwasanaeth hwn dan amodau gwahanol iawn. Fe wnaethom symud aelodau eraill o staff o'r is-adran i'r gwasanaeth Helpa Fi i Stopio i helpu gyda'r cynnydd yn y galw. Cafodd yr aelodau hyn o staff eu hyfforddi i'r un safon â gweithwyr cymorth ffôn arferol.

Daeth y berthynas ag arweinwyr gwasanaethau ym mhob ardal bwrdd iechyd yn gryfach wrth i ni ymateb i'w hanghenion mewn amgylchiadau a oedd yn newid yn gyson.

Drwy ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol, llwyddwyd i gadw'r galw am wasanaethau Helpa Fi i Stopio ar lefel briodol drwy gydol y pandemig, gyda mân gyfnodau brig ar yr un adeg ag yr oedd y newyddion yn adrodd ar sut y gall COVID-19 effeithio ar smygwyr. Roedd yn galonogol gweld faint o smygwyr wnaeth gysylltu â'r gwasanaeth ar

ôl clywed argymhelliad gan ffrind neu gydweithiwr, ac ym mis Hydref 2020 gwelwyd cynnydd flwyddyn ar ôl blwyddyn yn nifer y smygwyr a oedd yn derbyn cymorth. Mae'r ffaith bod yr amser aros cyfartalog i gleifion newydd wedi bod yn sylweddol llai na'r targed o 14 diwrnod drwy gydol y pandemig yn glod i'r tîm Helpa Fi i Stopio ledled Cymru.

O 23 Mawrth 2020 hyd 31 Ionawr 2021:

- gwelwyd cynnydd yn nifer yr hunanatgyfeiriadau at Helpa Fi i Stopio ar-lein o 4,162 i 5,950, ac fe wnaeth 60% o'r rhain dderbyn cymorth o'i gymharu â'r 45% a gafodd gymorth y flwyddyn flaenorol;
- fe wnaeth atgyfeiriadau gan weithwyr iechyd proffesiynol leihau'n sylweddol o 6,884 i 2,683, gan adlewyrchu'r ffaith bod staff rheng-flaen wedi cael eu symud i rolau ymateb i'r pandemig;
- fe wnaeth y gwasanaeth cymorth dros y ffôn cenedlaethol helpu 17% o smygwyr, gan adlewyrchu'r ffaith bod llai o wasanaethau wyneb yn wyneb yn cael eu darparu ar y pryd; ac
- er gwaetha'r pandemig, arhosodd nifer y smygwyr a ymunodd â gwasanaethau Helpa Fi i Stopio yn weddol sefydlog, gyda 11,004 o gleifion newydd o'i gymharu ag 11,547 y flwyddyn flaenorol.

Fel gyda nifer o wasanaethau, bydd rhai ffyrdd newydd o weithio a gafodd eu mabwysiadu yn ystod y pandemig yn parhau i gael eu defnyddio yn y tymor hir fel y gall Helpa Fi i Stopio barhau i ddiwallu anghenion smygwyr sydd am stopio smygu.



Trefniadau diogelu

Mae'r Tîm Diogelu Cenedlaethol yn gweithio'n agos â Llywodraeth Cymru, byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau'r GIG i wella trefniadau diogelu ar draws GIG Cymru. Mae'r tîm yn gweithio gyda'i gilydd i adnabod problemau cyffredin, i ganfod atebion ac i fodloni safonau diogelwch er mwyn sicrhau mesurau gwarchod gwell i blant ac oedolion sy'n wynebu risg.

Rydym wedi parhau i roi arweiniad ar drefniadau diogelu i randdeiliaid drwy Gynllun Gwaith Rhwydwaith Diogelu GIG Cymru ar raddfa lai, drwy gyfarfodydd rheolaidd a thrwy gyfnewid gwybodaeth drwy fwletin cyfathrebu rheolaidd y rhwydwaith, yr ydym yn ei rannu â'n hasiantaethau partner fel y bo'n briodol.

Drwy flaenoriaethu achosion yn defnyddio gwybodaeth a rennir drwy Grŵp Cynghori Llywodraeth Cymru ar Ddiogelu Plant a Phobl

Ifanc sy'n Agored i Niwed, a thrwy Grŵp Rhithwir COVID-19 y Comisiynydd Pobl Hŷn ar Gam-drin Pobl Hŷn, rydym wedi cael arweiniad wrth lunio nodau ar gyfer Cynllun Gwaith y Tîm Diogelu Cenedlaethol. Mae parhau i gynnig y gwasanaeth yn golygu cymryd rhan mewn partneriaethau rhanddeiliaid strategol a chenedlaethol, er enghraifft, Byrddau Diogelu Rhanbarthol, Pwyllgorau Diogelu Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau, Grwpiau Cynghori Gweinidogol Llywodraeth Cymru (ar blant sy'n derbyn gofal, ac ar blant a phobl ifanc sy'n agored i niwed), Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol a'r cyfarfodydd i adolygu achosion unedig.

Roedd adolygiad o ba mor effeithiol yw'r dull hwn ar raddfa lai yn dangos y bydd y prif amcanion yn cael eu hoedi gan fod y tîm yn parhau i gynorthwyo â'r ymateb i COVID-19.

Gofalu am blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal

Mae'r pandemig COVID-19 wedi rhoi straen ychwanegol ar blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal ac sy'n byw mewn lleoliadau gofal maeth ac unedau preswyl, yn enwedig yn ystod y cyfyngiadau symud pan nad oedd ganddyn nhw gefnogaeth teulu, ffrindiau a'r ysgol. Fe wnaeth y Tîm Diogelu Cenedlaethol gydlyn arferion da ac ymchwilio i feysydd a oedd yn peri pryder er mwyn cefnogi'r gwaith o ddatblygu rheoliadau a fyddai'n helpu plant a phobl ifanc yn ystod y pandemig. Fe wnaethom gyhoeddi cyngor rheolaidd i weithwyr proffesiynol ar ein gwefan, a chafwyd ymateb positif i hyn.

Drwy gydol 2020, roedd uwch-feddyg o'r Tîm Diogelu Cenedlaethol yn rhan o'r trafodaethau â chydweithwyr o Lywodraeth Cymru, y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol, Cymdeithas Maethu a Mabwysiadu Cymru ac awdurdodau lleol i sicrhau bod gwasanaethau mabwysiadu yn parhau ond mewn ffordd wahanol.

Mae'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol wedi dweud bod y dangosyddion perfformiad mabwysiadu (sef y safonau ddefnyddir i fesur perfformiad) ledled Cymru wedi dangos y cyflawnir y targedau fel ag yr oeddent cyn COVID-19, ac mae hyn yn llwyddiant rhagorol.



- Sut mae cynorthwyo plant? • Ein barn ni fel pobl ifanc!
- Ystyried ymyriadau posibl!

Mae mesurau arloesol eraill yn cynnwys ymgynghoriadau dros y ffôn a thros fideo â phlant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal, gofalwyr maeth, nyrsys a gweithwyr cymdeithasol. Roedd rhai plant sy'n derbyn gofal yn ffafrio'r dull hwn o gysylltu, ac maen nhw'n awyddus i hyn barhau. Mae'r Tîm Diogelu Cenedlaethol wedi cael gwybod am ddatgeliadau o gam-drin rhywiol hanesyddol yn erbyn plant, a oedd yn bosibl drwy gysylltu ar y ffôn yn hytrach na thrwy asesiadau iechyd wyneb yn wyneb. Rydym yn bwriadu cynnwys y rhain yn y gwersi a ddysgwyr, gan edrych ar gymysgedd o gyfarfodydd wyneb yn wyneb a sgysiau ar-lein i ddiwallu anghenion unigryw y grŵp hwn.

DYSGU SEFYDLIADOL, GWYBODAETH A'N STORI COVID-19

Fel sefydliad, mae'n rhaid i ni barhau i ddysgu o'n hymateb cyflym i COVID-19. Yn unol â'n strategaeth Gweledigaeth ar gyfer Defnyddio Gwybodaeth (2020-2025) a gwaith y Gyfarwyddiaeth Wybodaeth, ein nod yw sicrhau bod gwybodaeth yn hygyrch ac yn hawdd ei defnyddio.

Mae'r pandemig wedi newid yr hyn yr ydym yn ei wneud a sut rydym yn gweithio, ac mae hyn yn golygu bod gennym gyfle gwirioneddol i ddefnyddio'r hyn yr ydym wedi ei ddysgu i lywio ein gwasanaethau a'n prosesau yn y dyfodol. Mae hefyd yn bwysig ein bod yn gallu dangos bod gennym gofnod clir o'n rôl a'n gweithredoedd yn ystod y pandemig, a bod ein penderfyniadau, ein perfformiad a'n gwaith rheoli yn cefnogi hyn. Bydd hyn yn arbennig o bwysig er mwyn cefnogi unrhyw ymchwiliadau cyhoeddus a gwaith ymchwil yn y dyfodol.

Yn ystod y pandemig, fe wnaethom gyflwyno gwasanaethau a rolau newydd ac rydym wedi newid sut rydym yn gweithio. Rydym wedi dod â rhai o'n rhaglenni a'n gwasanaethau i stop dros dro, a bydd angen iddyn nhw ailgychwyn gan ddefnyddio'r ffyrdd newydd hyn o weithio. Mae nifer o gyfleoedd dysgu wedi codi, ac mae'n bwysig ein bod yn dangos yr wybodaeth hon a pham a sut rydym wedi gwneud penderfyniadau, fel y gallwn ddefnyddio hyn wrth i'r galw newid.

Byddwn yn parhau i gasglu a chyfuno'r hyn yr ydym wedi ei ddysgu drwy'r pandemig. Byddwn yn cytuno ar ddulliau i rannu gwersi o fewn y sefydliad a, lle y bo'n briodol, gyda rhanddeiliaid allanol. Bydd angen i ni hefyd gofnodi a storio'r wybodaeth, y camau gweithredu a'r penderfyniadau yr ydym wedi eu gwneud o ran COVID-19.

Ansawdd a gwella

Rydym wedi datgan ein nod i fod yn sefydliad sy'n perfformio i lefel uchel, ac mae hyn yn parhau i fod yn nod gennym er gwaethaf heriau COVID-19. Yn ystod y pandemig, bu'n rhaid i ni newid ein blaenoriaethau o ran ein gwaith. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod ei bod yn bwysicach nag erioed ein bod yn parhau i wella ansawdd a gwneud gwelliannau, wedi ei ategu gan y dystiolaeth sydd ar gael a'r dulliau profedig. Bydd hyn yn sicrhau y gallwn ddangos bod ein gwasanaethau yn ddiogel ac yn effeithiol, gan gyflawni'r canlyniadau sydd eu hangen. Byddwn yn gwneud hyn drwy ddefnyddio gwybodaeth sydd ar gael ar unwaith, lle y bo'n bosibl, er lles y cyhoedd a'n rhanddeiliaid.

Dros y misoedd sydd i ddod, byddwn yn:

- gweithredu ein Strategaeth Ansawdd a Gwella a'r Cynllun Gweithredu sy'n ategu'r strategaeth;
- cyflawni ein cynllun gweithredu 'Ein Dull Ymgysylltu'; a
- chyflawni ein dull llywodraethu sydd wedi ei ddiweddarau (sef y trefniadau i oruchwylio'r hyn rydym yn ei wneud), y byddwn yn ei sefydlu drwy greu cynllun i gefnogi ein sefydliad i barhau i ddatblygu.

Rydym wedi cynnal gweithdai gyda chynrychiolwyr ar draws y cyfarwyddiaethau i sefydlu 'model rhesymeg'. Bydd y model hwn yn ein helpu i drefnu'r gwaith o gynllunio rhaglenni, rheoli, a gwerthuso er mwyn cefnogi'r ffordd y mae'r Strategaeth Ansawdd a Gwella yn cael ei gweithredu ar ôl iddi gael ei chymeradwyo.

Lleoliadau caeedig

Ym mis Mawrth 2020, pan gyflwynwyd y cyfyngiadau symud cenedlaethol cyntaf, fe wnaethom symud i gam nesaf ein hymateb i'r pandemig. Fe wnaethom gydnabod bod rhai lleoliadau allweddol a'r bobl a oedd yn byw yno mewn perygl o ddal COVID-19. Roedd y rhain yn cynnwys cartrefi gofal, hosteli, carchardai ac unrhyw le yr oedd pobl yn byw ynddo mewn grwpiau. Rydym yn aml yn disgrifio'r rhain fel 'lleoliadau caeedig'.

Fe wnaethom sefydlu tîm i ymateb wrth i nifer yr ymholiadau gynyddu'n gyflym o'r lleoliadau hyn, yn enwedig cartrefi gofal i bobl hŷn. Fel y gwyddom erbyn hyn, y lleoliadau hyn fyddai'n dioddef waethaf o effeithiau'r coronafeirws. Darparodd y tîm linell ffôn benodol i gartrefi gofal ei defnyddio i adrodd am achosion COVID-19, a hynny saith diwrnod yr wythnos rhwng 8am a 10pm o ddydd Llun i ddydd Gwener ac o 8am tan 8pm ar benwythnosau.

Cafodd y tîm ei hysbysu am achosion a amheuir neu achosion a gadarnhawyd ac, yn y cyfnodau cychwynnol, pan oedd y gwasanaethau profi'n cael eu datblygu a'u hehangu, fe wnaethom weithio gyda byrddau iechyd i drefnu profion. Fodd

bynnag, y gwaith pwysicaf oedd darparu cyngor yn gyflym ynghylch sut i leihau'r risg o ledaenu'r feirws. Buan y gwnaethom ddysgu ei bod yn anodd iawn rheoli'r feirws ar ôl iddo gyrraedd cartref gan ei fod yn lledaenu'n hawdd iawn.

Fe wnaethom lunio canllawiau i gartrefi gofal a'u diweddarau'n rheolaidd wrth i'r cyngor newid. Ond fe wnaethom ganfod mai'r hyn yr oedd y cartrefi gofal yn ei werthfawrogi fwyaf oedd gwybod y gallent gael cyngor arbenigol pan fo'i angen.

Fe wnaeth y tîm lleoliadau caeedig ddefnyddio staff o bob rhan o'r sefydliad ac nid oedd y rhan fwyaf ohonynt wedi gwneud y math hwn o waith o'r blaen. Ar adegau, roedd y gwaith yn drawmatig ac yn anodd iawn, wrth i'r staff wrando ar hanesion gan staff cartrefi gofal a oedd wedi gweld pobl yn marw a lefelau cynyddol o bryder ac ofn wrth i effaith y pandemig ar gartrefi gofal ddod yn amlwg.

Wrth i don gyntaf y pandemig ddod i ben, fe wnaethom lwyddo i ddatblygu dull gweithredu tymor hwy, gan weithio gyda chydweithwyr yn Nhîm Iechyd yr Amgylchedd a chyda thimau Profi Olrhain Diogelu rhanbarthol, ac mae hyn wedi parhau.



Gweithio i wella

Rydym yn croesawu clywed pryderon (digwyddiadau, cwynion a honiadau) fel ffordd o wella'r gwasanaethau a'r rhaglenni yr ydym yn eu cynnig. Rydym yn derbyn nad ydym bob amser yn gwneud pethau'n gywir ac yn methu weithiau â bodloni eich disgwyliadau. Pan fydd hyn yn digwydd, rydym yn addo gwneud popeth o fewn ein gallu i wella'r sefyllfa a dysgu o'r cwynion fel nad yw'r un peth yn digwydd eto. Felly mae gennym systemau ar waith i gydnabod pan fo pethau'n mynd o'u lle, i ymchwilio i pam mae problemau'n codi ac i wneud newidiadau lle y bo'n briodol.

Mae adborth a dysgu yn bwysig i ni ac mae'n rhoi cyfle i ni wella ac ychwanegu at ein gwasanaethau a'n rhaglenni. Hefyd, mae'n bwysig bod pobl yn teimlo bod rhywun yn gwrando arnyn nhw a'u bod yn cael eu trin â pharch, ac yn cael ymateb agored, gonest a phrydlon i'w pryderon.

Rydym yn parhau i reoli pryderon yn unol â Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru) 2011.

Yn 2020-2021, cawsom 72 o gwynion ffurfiol. Roedd nifer fawr o'r rhain yn ymwneud â'r pandemig. Roedd tair prif thema i'r cwynion, fel y nodir isod. Rydym hefyd wedi ychwanegu enghreifftiau o'r math o gwynion a gawsom a'r gwersi yr ydym wedi eu dysgu ohonynt.

1

Cwynion am y canllawiau y gwnaethom eu rhoi i gartrefi gofal yn ystod y pandemig, yn benodol:

- y canllawiau ar ymweld;
- y canllawiau ar brofi aelodau o staff a phreswylwyr;
- y canllawiau cyffredinol ar y cyfyngiadau yn ystod y pandemig.

2

Cwynion am i ni stopio ein rhaglenni sgrinio yn ystod y pandemig.

3

Cwynion am y ffyrdd o gyfathrebu y gwnaethom eu defnyddio mewn arolygon ar COVID-19.

Mae pryderon pobl yn rhoi adborth gwerthfawr i ni, ac rydym yn awyddus i ddysgu o'r adborth hwnnw ac yn ystyried hyn fel achos positif dros newid. Mae'r is-adran neu'r gwasanaeth perthnasol yn mynd i'r afael ag unrhyw gwynion sy'n dweud sut y gallwn wella gwasanaethau a rhaglenni.

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cydnabod pa mor werthfawr yw rheoli cwynion yn effeithiol a'r hyn y mae'r sefydliad yn ei ddysgu o hynny, gan ddatblygu a gwella gwasanaethau, swyddogaethau a rhaglenni. O'r herwydd, rydym yn croesawu cyfleoedd i ddysgu o brofiad pobl, boed yn dda neu'n ddrwg.

(Gay Reynolds, Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd)





Gwersi a ddysgwyd - enghraifft 1

Gwnaed cwyn oherwydd bod canlyniad prawf COVID-19 yn bositif mewn cartref gofal, ac roedd y canllawiau ar y pryd yn dweud y dylai pawb yn y cartref gael ei brofi o fewn 24 awr i brawf positif, ond ni chafodd hynny ei wneud.

Prif natur y gŵyn hon oedd bod y canllawiau wedi cael eu cyhoeddi ar brofi aelodau o'r staff a'r preswylwyr mewn cartrefi gofal yn ystod y pandemig, ond nad oeddent yn cael eu dilyn.

Fe wnaethom sefydlu systemau i hysbysu byrddau iechyd ei bod yn bosibl y bydd angen i'r cartref cyfan gael ei brofi os yw canlyniadau'r profion cychwynnol yn bositif, yn ogystal â'u hysbysu y bydd angen i bawb yn y cartref gael ei brofi pan fydd profion yn bositif.

Gwersi a ddysgwyd - enghraifft 2

Cawsom gŵyn am i ni stopio'r rhaglen Sgrinio Llygaid Diabetig yn sgil y pandemig, a'r effaith uniongyrchol ar iechyd pobl oherwydd nad oedden nhw'n gallu mynd i'r apwyntiadau sgrinio llygaid hyn.

Prif natur y gŵyn oedd bod y rhaglen sgrinio llygaid, a'n rhaglenni sgrinio eraill, wedi cael eu stopio am gyfnod yn ystod y pandemig, ac roedd ansicrwydd o ran pryd y byddai'r gwasanaeth yn ailgychwyn a pha mor hir y byddai'n ei gymryd i adalw cleifion.

Fe wnaethom ddau beth i wella'r gwasanaeth hwn. Fe wnaethom ddatblygu negeseuon allweddol i'w cyfathrebu i gleifion fel rhan o'r cynllun i ailgychwyn gwasanaethau sgrinio ac fe wnaethom ystyried beth oedd y ffordd orau o ddweud wrth gymunedau lleol pa mor hir y byddai'n rhaid aros am eu hapwyntiadau.

Gwersi a ddysgwyd - enghraifft 3

Cawsom gŵyn gan rywun yr oeddem wedi cysylltu â nhw i gymryd rhan mewn arolwg ymgysylltu â'r cyhoedd am effeithiau mesurau COVID-19 yng Nghymru ar iechyd a llesiant. Roedd yn pryderu am nifer y galwadau yr oedd wedi eu cael ac a oeddem wedi defnyddio cofnodion meddygol wrth ddewis pobl i gwblhau'r arolwg.

Prif natur y gŵyn oedd bod yr arolwg yn un cynrychioliadol cenedlaethol ar gyfer pobl 18 oed a hŷn, a gaiff eu dewis ar hap i gymryd rhan. Nid ydym byth yn gweld gwybodaeth bersonol na gwybodaeth feddygol pobl.

I wella'r gwasanaeth, rydym bellach yn rhoi gwybodaeth gliriach ar ein gwefan am yr arolwg a sut rydym yn dewis pobl i gymryd rhan ynddo. Roedd peth gwybodaeth am yr arolwg ar y wefan pan gafodd y gŵyn ei gwneud, gan gynnwys y rhif ffôn yr ydym yn ei ddefnyddio i ffonio pobl. Fe wnaethom gytuno i barhau i ddarparu'r wybodaeth hon ar gyfer arolygon yn y dyfodol i bobl sy'n dymuno gwirio'r arolygon a chael sicrwydd y bydd eu gwybodaeth yn ddienw ac yn gyfrinachol.





Datganiad ar dor diogelwch data

Astudiaeth achos: diogelwch data

Cafodd adroddiad a oedd yn cynnwys gwybodaeth bersonol yn ymwneud â 18,105 o bobl a oedd wedi profi'n bositif am COVID-19 ers mis Chwefror 2020 ei gyhoeddi ar wefan gyhoeddus drwy gamgymeriad. Er bod y wefan yn un gyhoeddus, nid yw'n un sy'n cael ei defnyddio fel rheol gan aelodau o'r cyhoedd, ond gan ein partneriaid yr ydym yn ymddiried ynddynt. Ym mis Medi 2020, fe wnaethom roi gwybod i'r Comisiynydd Gwybodaeth am y digwyddiad hwn, a oedd yn golygu bod cyfraith diogelu data wedi cael ei thorri.

Yn y rhan fwyaf o achosion (16,179 o bobl), roedd yr wybodaeth yn cynnwys blaenlythrennau enw pobl, eu dyddiad geni, eu rhyw neu rywedd a lle maen nhw'n byw, felly roedd y risg y bydden nhw'n cael eu hadnabod yn fach. Fodd bynnag, yn achos 1,926 o bobl a oedd yn byw mewn cartrefi gofal neu leoliadau caeedig eraill fel tai â chymorth, neu breswylwyr sy'n rhannu'r un cod post â'r lleoliadau hyn, roedd yr wybodaeth hefyd yn cynnwys enw'r lleoliad. Mae'r risg o allu adnabod y bobl hyn yn uwch, ond yn dal i gael ei hystyried yn fach. Yn yr amser yr oedd yr wybodaeth ar gael i'r cyhoedd, cafodd y wefan ei gweld 56 o weithiau. Fodd bynnag, nid yw hyn yn golygu bod 56 o bobl wedi gweld y wefan – mae'n bosibl y bydd un person wedi edrych arni sawl gwaith, ac felly mae'n debygol bod nifer y bobl a welodd yr wybodaeth yn debygol o fod yn llai na 56.

Fe wnaethom gymryd camau ar unwaith i atal digwyddiad tebyg rhag codi eto, a chafodd ymchwiliad annibynnol, allanol ei gomisiynu ym mis Hydref 2020. Roedd yr adroddiad hwnnw'n gwneud wyth argymhelliad. Fe wnaethom lunio cynllun gweithredu i wella, ac rydym wrthi'n rhoi'r cynllun hwnnw ar waith. Fe wnaeth swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ymchwilio i'r digwyddiad a phenderfynu nad oedd angen cymryd camau. Daeth y swyddfa i'r casgliad ei bod yn rhesymol defnyddio ein gweinydd mewnol a'n gweinydd allanol ill dau i storio gwybodaeth bersonol, gan gynnwys gwybodaeth sensitif.

Nododd swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth hefyd fod yr wybodaeth yn cael ei chyhoeddi'n ddyddiol, ac nad ydym ni wedi adrodd ar unrhyw ddigwyddiadau eraill o'r math yma i'r swyddfa. Argymhellodd y swyddfa ein bod yn parhau i gadw at y cynllun gweithredu ac yn rhoi'r camau a nodwyd gan yr ymchwiliad allanol ar waith yn llwyr cyn gynted â phosibl.

Gallwch ddarllen y datganiad llawn yma:



<https://icc.gig.cymru/newyddion1/datganiad-iechyd-cyhoeddus-cymru-ar-tor-diogelwch-data1>

ADFERIAD SEFYDLIADOL

Mae angen i ni asesu'r effaith y mae COVID-19 wedi'i chael ar ein strategaeth hirdymor a thymor canolig a'r cynlluniau blynyddol. Byddwn yn gwneud hyn dros y misoedd nesaf gydag adolygiad strategol ffurfiol.

Nod hyn fydd asesu a yw ein strategaeth bresennol yn dal i fod yn berthnasol neu a oes angen i ni ei diwygio yng ngoleuni'r hyn yr ydym wedi ei brofi a'i ddysgu yn sgil COVID-19 ac o edrych ar gyfleoedd a heriau yn y dyfodol. Byddwn yn gwneud hyn drwy weithio gyda'r Bwrdd, y Tîm Gweithredol, y staff a'n rhanddeiliaid.

Bydd ein gwaith yn cael ei lywio gan nifer o ffactorau allweddol, gan gynnwys:

- tystiolaeth newydd ar effeithiau COVID-19 ar iechyd pobl Cymru yn y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir;
- asesu cyfleoedd a heriau yn y dyfodol;
- tystiolaeth ryngwladol ar rôl sefydliadau iechyd cyhoeddus cenedlaethol yn dilyn y pandemig;
- adborth gan ein staff, ein prif rhanddeiliaid a'r cyhoedd.

Mae'n bwysig ein bod yn cydweithio â'n staff wrth bennu ein dull a'n hegwyddorion ar gyfer y camau yr ydym yn bwriadu eu cymryd, ac yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau fel y gallwn gyrraedd staff ledled Cymru ac ym mhob rhan o'r sefydliad yn effeithiol.

Fe wnaeth Ein Sgwrs, sef cyfres o drafodaethau gyda'r nod o edrych ar ffyrdd o weithio yn y dyfodol gyda'n staff, ddechrau ym mis Mawrth 2021. Mae'n bwysig ein bod yn parhau i siarad â'n cydweithwyr am eu gwaith a sut olwg fydd ar waith Iechyd Cyhoeddus Cymru yn y dyfodol yng nghyd-destun COVID-19.

Mae'r sgysiau yn ystyried y ffyrdd gorau o weithio yn y gorffennol (cyn COVID-19), y llwyddiannau a gawsom drwy weithio'n wahanol yn ystod y pandemig, a beth y dylem fanteisio arno yn y dyfodol. Rydym yn teimlo'n gryf y dylai pob aelod o'n staff gael cyfle i gyfrannu at y sgysiau hyn – byddant yn hanfodol wrth ddylanwadu ar sut rydym yn gweithio a sut olwg fydd ar y gweithle yn y dyfodol.

Byddwn yn casglu canlyniadau'r sgysiau hyn ac yn cyhoeddi'r themâu a ddaeth i'r amlwg i'r staff yn ystod haf a hydref 2021. Bydd ein Bwrdd yn rhan o'r sgysiau a'r penderfyniadau a wnawn yn deillio o'r sgysiau hynny.



EIN POPL

Ers dechrau'r pandemig, rydym wedi gorfod addasu drwy ddefnyddio ein staff ar draws y sefydliad fel y gallwn ymateb yn gyflym i raddfa'r pandemig.

Wrth i ni symud i gam nesaf ein hymateb, mae'n amlwg bod mwy o bwysau nag erioed ar nifer o'n staff, a bydd arnynt angen cefnogaeth gref a rhagweithiol i sicrhau eu bod yn cadw'n iach ac yn ddiogel, yn enwedig wrth i ni agosáu at y gaeaf, sy'n debygol o fod yn amser heriol i nifer ohonom.

Wrth i ni barhau â'n gwaith o ymateb i COVID-19 yn uniongyrchol, er enghraifft drwy ddarparu profion a rhoi cyngor arbenigol i ddiogelu iechyd, rydym hefyd wrthi'n ailgychwyn gwasanaethau hanfodol a gwasanaethau blaenoriaeth eraill, megis ein rhaglenni sgrinio, ac rydym yn dechrau gweithio unwaith eto ar flaenoriaethau hirdymor eraill.

Wrth i ni barhau i weithio'n wahanol, rydym yn dysgu o'r newidiadau i bolisïau'r gweithlu, ffyrdd o weithio, rolau a chyfrifoldebau i gefnogi'r ymateb i COVID-19. Bydd hyn yn llywio ein hadferiad a dyfodol ein gwaith, yn unol â'n Strategaeth Pobl.

Cyflawniadau ac anrhydeddau'r staff

Derbyniodd yr aelodau staff a ganlyn MBE am eu gwaith wrth ymateb i COVID-19.

- Dr Eleri Davies, Pennaeth Rhaglen Heintiau sy'n Gysylltiedig â Gofal Iechyd, Ymwrthedd Gwrthficrobaidd a Rhagnodi (HARP), Iechyd Cyhoeddus Cymru

- Dr Robin Howe, Ymgynghorydd Arweiniol Proffesiynol ym maes Microbioleg, Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Gail Lusardi, Nyrs Ymgynghorol, Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Dr Catherine Moore, Gwyddonydd Clinigol Ymgynghorol, Canolfan Feiroleg Arbenigol Cymru, a Phennaeth Datblygu Gwasanaeth Moleciwlaidd, Iechyd Cyhoeddus Cymru

Dywedodd ein Cadeirydd...

Rydym yn eithriadol o falch o'n holl bobl yn Iechyd Cyhoeddus Cymru, a heddiw rydym yn arbennig o falch o Eleri, Robin, Gail a Catherine a'u proffesiynoldeb, arweinyddiaeth, ymroddiad a'u haberth wrth ymateb i COVID-19. Mae sawl un wedi mynd y tu hwnt i'r disgwyliadau dros y misoedd diwethaf, ac maen nhw'n parhau i wneud hynny bob dydd, felly mae'n braf iawn gweld Eleri, Robin, Gail a Catherine yn cael cydnabyddiaeth fel cynrychiolwyr y sefydliad cyfan.

Mae'r wobwr am Dîm Arweinyddiaeth Glinigol y Flwyddyn yn mynd i...

Mae ein timau Feirysau a Gludir yn y Gwaed ledled Cymru wedi ennill gwobr y British Medical Journal (BMJ) ar gyfer Tîm Arweinyddiaeth Glinigol y Flwyddyn 2020. Cafodd y timau eu cydnabod am eu hymdrechion wrth drin pobl ledled Cymru â hepatitis C. Roedd y beirniaid yn canmol ystod gwaith y timau, sut yr oedd gofal yn cael ei ddarparu yn unol â'r egwyddorion gofal iechyd darbodus, sut y rhoddwyd stop ar ragnodi yn ôl cod post, pa mor gost-effeithiol oedd y rhaglen driniaethau a'r arbedion a wnaed, a faint o ffocws a roddwyd ar y claf.

Roedd y beirniaid yn unfrydol yn eu penderfyniad, a dywedwyd bod y cyflawniadau yn 'rhagorol'. Cafodd y timau gydnabyddiaeth hefyd am eu parodrwydd i ddarparu gofal lle roedd ei angen fwyaf gan ddefnyddio dulliau newydd. Roeddem yn aelod allweddol o'r tîm, yn cyflawni nifer o'r prif swyddogaethau. Fe wnaeth yr adran feiroleg genedlaethol ddarparu strategaethau profi arloesol sydd wedi gwella mynediad at driniaethau'n sylweddol.

Roedd rhai o'r cyflawniadau nodedig yn cynnwys cyfraniad y tîm profi yn y man lle mae gofal yn cael ei ddarparu wrth gael gwared ar hepatitis C o garchar Abertawe (y tro cyntaf i hyn gael ei wneud yn y DU), darparu profion hepatitis C ar fws nos yng Nghaerdydd, a datblygu a darparu profion diagnostig ar waed drwy bigiad bys. Mae ein haelodau hefyd wedi chwarae rhan fawr wrth alluogi trawsblannu arennau gan roddwyr sydd â hepatitis C i gleifion heb hepatitis C, gan gael gwared ar y feirws – eto, y tro cyntaf i hyn gael ei wneud yn y DU.

Oeddech chi'n gwybod?

Mae egwyddorion gofal iechyd darbodus yn sicrhau bod GIG Cymru bob amser yn ychwanegu gwerth, yn cyfrannu at ganlyniadau gwell ac yn gynaliadwy.



Oeddech chi'n gwybod?

Mae rhagnodi yn ôl cod post yn disgrifio penderfyniadau awdurdodau ac ymddiriedolaethau iechyd GIG unigol o ran a allant fforddio rhoi cyffwr penodol ar gyfer cyflwr penodol.





Llesiant

Cafodd ein hail arolwg staff ar lesiant ei lansio ddiwedd mis Medi. Mae llesiant ein staff mor bwysig ag erioed, os nad yn bwysicach, ac rydym yn gobeithio y bydd y canlyniadau yn ein helpu i wneud mwy o welliannau.



Mae gan ein holl staff bellach ein hofferyn Asesu Risg Bersonol. Nod yr offeryn yw adnabod y rhai sy'n gweithio mewn lleoliadau lle mae'r risg yn uchel er mwyn addasu eu gweithle neu eu symud i awyrgylch risg is, fel gweithio gartref. Mae'r asesiad risg wedi ei gynnwys fel cymhwysedd ar y cofnod staff electronig a bydd yn ein galluogi i fonitro'r sefyllfa ymhellach ac adrodd i'r uwch-arweinwyr.

Absenoldeb oherwydd salwch

Fe wnaethom gofnodi canran absenoldeb oherwydd salwch o 3.2% ar gyfer cyfnod treigl o 12 mis rhwng mis Ebrill 2020 a mis Mawrth 2021.

Gyda chyfyngiadau symud lleol ar draws y rhan fwyaf o Gymru ac ansicrwydd parhaus ynghylch gwyliau a gofynion cwarantîn, mae ein staff wedi cymryd llai o wyliau blynyddol na'r blynyddoedd blaenorol.

Caiff pob aelod o staff ei annog i barhau i gymryd gwyliau yn rheolaidd er mwyn helpu eu hiechyd a'u llesiant eu hunain, yn enwedig o ystyried pa mor ddwys fu eu gwaith yn ystod y pandemig, a bydd eu rheolwyr yn cefnogi hyn. Rydym wedi llacio'r trefniadau o ran gwyliau blynyddol, amser mewn llaw a chario gwyliau drosodd ar ôl ymgynghori â'r undebau llafur, a byddwn yn parhau i fonitro hyn.

Adnoddau'r gweithlu

Rydym wedi gwneud cryn dipyn o waith yn ystod y cyfnod hwn i osod targedau, ac rydym wedi cynyddu niferoedd ein staff i sicrhau bod gennym weithlu cryf i'n cefnogi wrth i ni barhau i ymateb i'r pandemig.

Drwy ymgrych recriwtio wedi'i thargedu a thrwy symud staff i gefnogi ein hymateb i'r pandemig, rydym yn dal i sicrhau bod gan bob tîm gynllun i gael gafael ar yr adnoddau sydd eu hangen arnynt, ynghyd â'n gwneud ni'n llai dibynnol ar weithwyr asiantaeth a gweithwyr banc.

Astudiaeth achos: Recriwtio i rolau allweddol

Cawsom gymeradwyaeth weinidogol i gael buddsoddiad ychwanegol o tua £6 miliwn yn ein gwasanaethau diogelu iechyd (gan gynnwys ar gyfer monitro clefydau trosglwyddadwy) bob blwyddyn. Mae'r buddsoddiad hwn yn hwb mawr i gryfhau gwasanaethau diogelu iechyd yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys recriwtio i nifer o rolau allweddol a fydd yn caniatáu i'r staff sydd wedi'u symud i ymateb i'r pandemig ddychwelyd i'w rolau arferol.

Fe wnaeth y buddsoddiad ariannu 160 o staff. Fe wnaethom ddechrau recriwtio ar gyfer y rolau hyn ym mis Awst 2020. Roedd y swyddi ychwanegol yn golygu y gallem:

- ddarparu gwasanaeth profi COVID-19 drwy'r dydd bob dydd yn ein tri labordy rhanbarthol
- sefydlu chwe 'labordy gwib';
- rhedeg Labordy 2 yn IP5.

CYFLAWNI EIN BLAENORIAETHAU

Mae ein swyddogaethau 'galluogi' yn greiddiol i ni, ac maen nhw'n caniatáu i ni gyflawni ein blaenoriaethau drwy ddarparu arweinyddiaeth ac arbenigedd ar:

- drefniadau llywodraethu da;
- stiwardiaeth ariannol;
- dadansoddeg corfforaethol;
- diogelwch ac ansawdd;
- rheoli newidiadau yn effeithiol;
- cynllunio corfforaethol.

Mae'r swyddogaethau hyn wedi bod yn hyblyg gyda modd eu haddasu wrth ymateb i'r pandemig, ac maen nhw wedi gallu gweithio gyda'i gilydd a hynny'n gyflym.

Wrth i ni ddechrau adfer ac ailgychwyn gwasanaethau hanfodol, mae COVID-19 yn rhoi cyfleoedd i ni wneud rhai darnau o waith nad oedd yn bosibl yn flaenorol, ond bydd hefyd yn newid y math o sefydliad fyddwn ni yn y dyfodol. Mae'r cyfleoedd hyn yn cynnwys:

- adolygu ein strategaeth hirdymor a datblygu set o ganlyniadau iechyd cyhoeddus y cytunwyd arnynt a fydd yn siapio ac yn arwain ein gwaith yn y dyfodol;
- defnyddio gwybodaeth brydlon a dibynadwy i wneud penderfyniadau effeithiol a gwella perfformiad;
- defnyddio mwy o ffyrdd arloesol a newydd o weithio a chefnogi a datblygu ein pobl;
- creu a gwireddu ffyrdd o weithio ar-lein a chyfathrebu'n effeithiol â'n staff, ein rhanddeiliaid a'r cyhoedd.

Ffyrdd newydd o weithio

Ers i Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020 ddod i rym yng Nghymru ar 7 Ebrill 2020, rydym wedi bod wrthi'n sicrhau bod ein hadeiladau'n bodloni rheoliadau ac yn cadw ein staff a'r rhai sy'n defnyddio ein gwasanaethau yn ddiogel.

Rhwng Gorffennaf ac Awst 2020, fe wnaethom gyflogi cwmni i asesu sut rydym yn rheoli'r ffordd y mae COVID-19 yn cael ei drosglwyddo. Roedd yr asesiad yn cynnwys 28 o leoliadau a chymysgedd o adeiladau swyddfa, labordai ac adeiladau sgrinio. Rydym wedi cymryd y camau a argymhellwyd ac rydym yn parhau i fonitro'r trefniadau a chynnal gwiriadau dirybudd i sicrhau ein bod yn cadw at y rheoliadau. I sicrhau ein bod yn parhau i lwyddo i reoli unrhyw broblemau, mae'r Grŵp Iechyd a Diogelwch ar ei newydd wedd wedi dal i gwrdd bob pythefnos.

Wrth i Gymru symud i wahanol lefelau o gyfyngiadau, rydym wedi annog ein holl staff nad oes angen iddyn nhw fod ar safleoedd penodol fel rhan o'u gwaith i weithio gartref. Mae hyn er mwyn lleihau'r risg o ledaenu'r feirws a sicrhau bod y rhai sydd angen bod yn y gweithle mor ddiogel â phosibl. Rydym wedi rhoi cyfarpar swyddfa i'n staff ac wedi rhoi arweiniad i reolwyr a gweithwyr drwy fwletinau staff dyddiol ac ar dudalennau'r fewnwyd, gan gynnwys canllawiau ar weithio gartref, gosod yr offer TGCh a defnyddio Skype. Rydym hefyd wedi cyflwyno Microsoft Teams, One Drive a phecynnau Office 365 eraill yn ystod 2020-2021, gan roi ffordd arall i staff gyfathrebu. Ers dechrau'r pandemig, rydym wedi benthyg dros 1,000 o offer i staff. Mae hyn yn cynnwys cynnig monitor, llygoden, clustffonau a chadair, ar ôl cynnal asesiadau cyfarpar sgrin arddangos.

Y camau rydym wedi eu cymryd i greu gweithle sy'n ddiogel o ran COVID-19

- 1 Cyflwyno systemau unffordd
- 2 Sicrhau bod pellter diogel rhwng desgiau i gadw at reoliadau pellter cymdeithasol
- 3 Cael gwared ar gyfarpar ac eiddo personol o ddesgiau
- 4 Dangos mwy o arwyddion
- 5 Defnyddio ffurflenni cofrestru a chodau QR i gefnogi rhaglen Profi ac Olrhain y GIG
- 6 Darparu cyfarpar diogelu personol, gan gynnwys hylif diheintio dwylo a chlytia diheintio dwylo
- 7 Dilyn proses lle mae staff yn llofnodi wrth gyrraedd a gadael adeiladau
- 8 Monitro nifer y bobl mewn adeiladau ac ystafelloedd cyfarfod a sicrhau bod hyn yn cadw at y trefniadau sydd ar waith yn y gweithle

Yn sgil natur ein gwaith o fewn y gwasanaethau sgrinio a microbioleg, rydym wedi gwneud trefniadau pellach i sicrhau bod staff a phobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau yn ddiogel, ac i sicrhau y gall gwasanaethau barhau i weithio. Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys gweithio gyda'r tîm Atal a Rheoli Clefydau i sicrhau bod fflyd symudol Bron Brawf Cymru yn ddiogel i bobl ei defnyddio a sicrhau bod gan staff gyfarpar diogelu personol priodol.

Y cyngor a'r canllawiau yr ydym wedi'u rhoi i staff

- Asesiadau risg i staff sy'n agored i niwed (a gafodd eu disodli gan asesiadau risg unigolion Cymru Gyfan)
- Adnoddau iechyd meddwl, gan gynnwys ap SilverCloud Wellness, cynllun Care First, mynediad at weithwyr proffesiynol iechyd a gofal iechyd a'n gwasanaeth gwrandio ategol ein hunain ynghyd â chynnig gwasanaeth coetsio i reolwyr
- Ein harolygon ymgysylltu a llesiant a oedd yn gofyn 'sut wyt ti', gan roi cyfle i staff roi adborth ar beth sy'n gweithio, beth allai fod yn well ac, yn bwysig, eu prif bryderon, fel y gallwn gymryd camau lle bo angen.

Mae People Support Plus wedi bod yn cefnogi ein staff ers 30 Mawrth 2020. Mae'n cynnig un ganolfan gyswllt ar gyfer unrhyw ymholiadau gan staff, ar ystod eang o bynciau gan gynnwys datblygu sefydliadol a phobl, ystadau, materion ariannol, cyfathrebu, trefniadau llywodraethu gwybodaeth a rotas y ganolfan gysylltu. Os oes gan staff unrhyw gwestiynau am y canllawiau cadw pellter cymdeithasol neu gyfarpar diogelu personol, gallant gysylltu â desg People Support Plus neu'r tîm Ystadau ac Iechyd a Diogelwch.

Rheoli risgiau

Mae rheoli risgiau yn hanfodol i redeg sefydliad llwyddiannus. Dylai hyn fod wrth wraidd y broses o wneud penderfyniadau a dyrannu adnoddau ar lefel weithredol ac ar lefel gynllunio. Dylai anelu at adnabod cyfleoedd i arloesi a buddsoddi, ynghyd â'r angen i leihau'r risgiau.

Mae rheoli risgiau wedi bod yn ganolog i'n hymateb i'r pandemig COVID-19 – o ran ein sefydliad, ein pobl a'n gweithgareddau ac o ran y cyngor yr ydym wedi'i roi fel arweinydd system mewn pandemig byd-eang.

Hefyd, dros y misoedd diwethaf rydym wedi sicrhau ein bod yn adolygu'n barhaus ein risgiau cynllunio fel y gallent fod yn gyfredol ac yn briodol i'r amgylchedd heriol yr ydym yn gweithio ynddo. Rydym yn parhau i roi trefniadau rheoli risgiau ar waith ar bob lefel o'r sefydliad. Mae hyn yn golygu y gallwn fesur perfformiad yn erbyn y risgiau yr ydym yn eu wynebu, a dadansoddi themâu sy'n codi o risgiau drwy ddefnyddio Cofrestr Risgiau Strategol, Cofrestr Risgiau Corfforaethol a chofrestrau risgiau lleol.

Fe wnaeth pob maes gwasanaeth hefyd nodi risgiau posibl a'r hyn yr oedden nhw'n dibynnu arno i weithio'n llwyddiannus. Mae nifer o themâu cyffredin, gan gynnwys:

- adnoddau (pobl a chyllid), llesiant y staff a recriwtio;
- parhad busnes, mynediad at wybodaeth ac ansawdd gwybodaeth; a
- phartneriaid a rhanddeiliaid.

Byddwn yn parhau i ddatblygu a chryfhau sut yr ydym yn rheoli risgiau ar draws y sefydliad. Rydym yn bwriadu edrych eto ar risgiau cynllunio â'n Tîm Gweithredol a'r Bwrdd, a bydd hyn yn ffactor rheolaidd drwy gydol y flwyddyn.

Gallwch ddarllen mwy o fanylion am sut yr ydym yn rheoli risgiau yn ein Datganiad Llywodraethu Corfforaethol.





Gwneud penderfyniadau a llywodraethu


Rydym am sicrhau ein bod yn addasu ein ffyrdd o wneud penderfyniadau wrth i ni barhau i ddelio â'r pandemig, a sicrhau bod ein penderfyniadau'n gyson, yn gymesur, yn eglur, yn amserol, yn seiliedig ar ansawdd ac argaeledd gwybodaeth ac wedi'u gwneud ar lefel briodol. Byddwn yn adeiladu ar y cynnydd yr ydym wedi ei wneud hyn yma i sicrhau gwerth, buddion, ansawdd a gwelliant a chynllunio sut yr ydym yn rheoli risgiau.

Mae'r diagram isod yn dangos sut yr ydym yn gwneud ein penderfyniadau ynghylch ein hymateb i COVID-19 a'n hadferiad. Yn unol â'n Cynllun Ymateb mewn Argyfwng, rydym wedi adolygu ein cynlluniau llywodraethu ar gyfer penderfyniadau o ran ein hymateb i COVID-19.

Drwy gydol y 12 mis diwethaf, mae'r Bwrdd wedi parhau i adolygu ei drefniadau llywodraethu ac mae wedi gwneud nifer o newidiadau i'r ffordd y mae'n gweithio. Rydym wedi parhau i gadw ein safonau llywodraethu a'r amrywiadau i'n rheolau sefydlog (sef y rheolau ysgrifenedig sy'n rheoli ein trafodion) drwy gydol y pandemig.

Mae'r Bwrdd wedi cwrdd bob mis ers 26 Mawrth 2020, ac mae ei bwyllgorau wedi gweld nifer o newidiadau (gweler isod). Fe barhaodd y Bwrdd i dderbyn gwybodaeth reolaidd, gywir, berthnasol ac amserol gan y Tîm Gweithredol rhwng cyfarfodydd y Bwrdd, ynghyd â'n gwefan perfformiad a sicrwydd newydd ac adroddiad ategol. Bob mis, mae'r adroddiad hwn yn casglu'r prif ddarnau o wybodaeth am ein hymateb i COVID-19, ein cyllid, ein gweithlu, a'r risgiau a'r prif ddangosyddion perfformiad.

Sut mae penderfyniadau'n cael eu gwneud?





Mae'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelu a Gwella a'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol wedi parhau i gwrdd bob wyth wythnos (bob yn ail fis). Cafodd y Pwyllgor Gwybodaeth, Ymchwil a Hysbysrwydd a'r Pwyllgor Datblygu Sefydliadol a Phobl eu hatal dros dro. Fe wnaeth ein cyfarwyddwyr strategol, ar y cyd â phedwar cyfarwyddwr digwyddiadau (cynnydd o'r tri blaenorol), barhau i oruchwyllo ein hymateb i'r pandemig.

Cyn COVID-19, fe wnaeth ein Tîm Gweithredol Busnes gwrdd bob mis heblaw am fis Ebrill a Mai 2020. Fe wnaeth eu cyfarfodydd ffurfiol ailddechrau ym mis Mehefin 2020, gyda mwy o ffocws ar gael sicrwydd gan y Grŵp Aur (gweler isod) am ein hymateb, gan gynnwys sut yr oedd yn effeithio ar iechyd y boblogaeth yn ehangach, sut y mae ein sefydliad yn adfer ac yn ailgychwyn gwasanaethau nad ydynt yn ymwneud â COVID-19, a llesiant ein staff.

Sefydlwyd y Grŵp Aur yn unol â'n Cynllun Ymateb i Argyfwng. Mae'n gyfrifol am reoli digwyddiadau diogelu iechyd a chreu cynllun ar gyfer lefelau ymateb eraill mewn unrhyw ddigwyddiad diogelu iechyd. Yn yr achos yma cafodd ei sefydlu i ddelio â COVID-19. Fe wnaeth barhau i gwrdd yn wythnosol, ac fe wnaeth y Tîm Rheoli Digwyddiadau gwrdd o leiaf dair gwaith

yr wythnos. Roedd y Grŵp Aur yn adolygu'r asesiad o hyder o ran cyflawni fesul wythnos yn erbyn ein cynllun gweithredu cyfnod 2 Profi Orlhain Diogelu, ac roedd yn ei rannu â'r Bwrdd, gan gynnwys adroddiad ar risgiau ac unrhyw newidiadau ers y cyfarfod diwethaf. Fe wnaethom hefyd sefydlu Grŵp Iechyd y Boblogaeth yn adrodd yn ôl i'r Grŵp Aur, gyda'r nod o ddeall ac atal niwed ehangach yn sgil COVID-19 a ffactorau eraill sy'n effeithio ar bolisiau, iechyd ac anghydraddoldebau yng Nghymru.

Wrth i ni barhau i ymateb i COVID-19, ochr yn ochr â meysydd blaenoriaeth eraill, roedd yn amser da i adolygu'r trefniadau unwaith eto yng nghyfarfod ein Bwrdd ym mis Mawrth 2021, cyn dechrau'r flwyddyn ariannol 2021-2022. Mae'r newidiadau i amserlen y Bwrdd a'r pwyllgorau i'w gweld ym mhapurau'r Bwrdd sydd wedi'u cyhoeddi, ac maent yn cynnwys newidiadau i ba mor aml y cynhelir cyfarfodydd y Bwrdd a chyfarfodydd pwyllgorau. Fe wnaethant gytuno ar newidiadau a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2021, gydag adolygiad i ddigwydd ym mis Gorffennaf 2021.

Gallwch ddarllen rhagor o wybodaeth am ein trefniadau llywodraethu a'n proses o wneud penderfyniadau yn ein Datganiad Llywodraethu Corfforaethol.



Cyfathrebu

Rydym wedi cynnal gwaith a gweithgareddau estynedig ar gyfathrebu i gynnwys y cyhoedd o ddechrau'r pandemig, ac rydym yn parhau i wneud hynny. Rydym wedi cynghori ar ymddygiad y cyhoedd ac wedi rhannu darnau o wybodaeth allweddol i gefnogi strategaeth Llywodraeth Cymru drwy rwydweithiau rhanddeiliaid a thrwy'r cyfryngau cymdeithasol a'r cyfryngau traddodiadol.

Ar yr un pryd, fe wnaeth ein tîm cyfathrebu chwarae rhan hollbwysig wrth arwain a chydlynu'r cyfathrebu ynglŷn â'r brigiadau a'r clystyrau o achosion COVID-19 a gafwyd ar ôl i'r cyfyngiadau gael eu llacio yn ystod haf 2020. Fe wnaethom y gwaith hwn yn unol â Chynllun Rheoli Clefydau Trosglwyddadwy Cymru Gyfan, ac rydym wedi cynnal gweithdai ar draws grwpiau cyfryngau'r pedwar Fforwm Lleol Cymru Gydnerth i sicrhau bod pob un o'r ardaloedd Profi Olrhain Diogelu yn deall yn iawn beth yw eu rolau a'u cyfrifoldebau pan fydd achosion yn dod i'r amlwg. Fel rhan o'r gwaith hwn, fe wnaethom gynnal sesiynau hyfforddi ar lefelau rhanbarthol, gan olygu y gallai timau lleol arwain y gwaith o gyfathrebu am glystyrau o achosion lleol.

Er mis Medi 2020, rydym wedi cydweithio'n agos â chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i gynllunio a chwblhau deunydd cyfathrebu i gefnogi lansio'r brechlyn COVID-19. I baratoi ar gyfer hynny, fe wnaethom lansio gwefan benodol i'r cyhoedd a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol sy'n cynnwys gwybodaeth gyfredol am y brechlyn.

Mae gennym hefyd wefan benodol ar gyfer COVID-19, yn cynnwys negeseuon cyfredol i'r cyhoedd a chanllawiau i weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol.

Ar ddechrau'r pandemig, fe wnaethom lansio ymgyrch 'Sut Wyt Ti?', sef ymgyrch llesiant i helpu i leihau effeithiau negyddol COVID-19 ar bobl Cymru. Cafodd yr ymgyrch ei datblygu gan arbenigwyr o'n huned gwyddorau ymddygiadol, a'i dylunio i roi cymorth a chynghor am lesiant meddyliol, corfforol a chymdeithasol. Fe wnaethom ailadrodd yr ymgyrch am gyfnod o chwe wythnos o ddechrau'r pythefnos o gyfyngiadau a gyflwynwyd yng Nghymru, a gafodd ei alw'n 'gyfnod atal byr' (Hydref 2020), gan roi pwyslais penodol ar iechyd meddwl.

GWEITHIO GYDA'N PARTNERIAID

Drwy gydol ein hymateb i'r pandemig, rydym wedi chwarae rôl allweddol o ran cefnogi'r cyhoedd, Llywodraeth Cymru, sefydliadau'r GIG, awdurdodau lleol, gwasanaethau brys, y system cyfiawnder troseddol, y sector addysg, gofal cymdeithasol a gwasanaethau gwirfoddol.

Rydym yn parhau i arwain gyda'n harbenigedd ar iechyd y cyhoedd drwy roi cyngor, gwybodaeth, dealltwriaeth a chymorth. Mae hyn yn cynnwys gweithio gydag ystod o bartneriaid o fewn y DU ac yn rhwngwladol, gan gynnwys:

- rhoi cyngor ar iechyd y cyhoedd i Lywodraeth Cymru i'w helpu wrth ddatblygu polisïau;
- cyflawni swyddogaethau a gwasanaethau iechyd cyhoeddus allweddol (er enghraifft, diogelu iechyd ac ymateb a rheoli clystyrau o achosion drwy wasanaethau microbioleg);
- cefnogi byrddau iechyd, awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru wrth weithredu rhaglen Profi Orlhain Diogelu;
- datblygu adroddiadau goruchwyllo ac adroddiadau gwybodaeth, a'u hanfon ymlaen at y system yn ehangach (er enghraifft, adroddiadau goruchwyllo COVID-19);
- gwneud gwaith ymchwil, gwerthuso a dadansoddi ar gyfer tystiolaeth ryngwladol i helpu i lywio polisïau a chynorthwyo Cymru wrth ymateb i'r pandemig (er enghraifft, yr arolwg cenedlaethol ymgysylltu â'r cyhoedd a'r gwaith sganio'r gorwel ar lefel rhwngwladol).

O ran enghreifftiau pwysig eraill o sut yr ydym wedi cefnogi Llywodraeth Cymru, rydym wedi:

- cymryd rhan mewn sawl grŵp technegol, ymgynghorol a gweithredol, ac wedi eu cadeirio lle y bo'n briodol;
- cynnig cyngor arbenigol ar atal a rheoli'r clefyd ac ar gyfarpar diogelu personol, gan gynnwys canllaw ategol ar gyfer gweithwyr gofal iechyd a gofal cymdeithasol;

- rhoi arweiniad i gartrefi gofal preswyl ar iechyd y cyhoedd, fel y disgrifiwyd yn flaenorol;
- darparu canllawiau i Swyddogion Iechyd Amgylcheddol o ran camau gweithredu i atal lledaeniad y feirws mewn cartrefi gofal a lleoliadau caeedig;
- datblygu cyngor arbenigol ar ddatblygiad y broses o brofi gweithwyr hanfodol i lywio polisi Llywodraeth Cymru;
- cynnig cyngor i lywio ac ystyried gwersi rhwngwladol a gafodd eu dysgu o COVID-19 a'r niwed ehangach sy'n effeithio ar iechyd a llesiant y boblogaeth.

Ym mis Hydref 2020, llofnodwyd Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Llywodraeth Cymru a Sefydliad Iechyd y Byd, a gefnogwyd gan ein tîm yng Nghanolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd. Mae'r Memorandwm yn nodi cytundeb cyffredin ynglŷn â'r angen i fuddsoddi ym maes iechyd a llesiant, yr amodau hanfodol i gyflawni'r lefelau iechyd uchaf posibl, datblygiad cynaliadwy a ffyniant i bawb yng Nghymru. Mae hyn hefyd yn cynnwys cydnabod a goresgyn yr heriau cyffredin sy'n wynebu cymdeithas, boed hynny cyn neu ar ôl effeithiau COVID-19. Dyma'r tro cyntaf yn y byd i Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth o'r fath gael ei ddatblygu. Mae ein perthynas gref â Sefydliad Iechyd y Byd yn golygu ein bod eisoes yn cydweithio ag ef, a thrwyddo rydym yn cydweithio â gwledydd eraill, i ddeall y ffyrdd mwyaf effeithiol a theg o ymdrin ag iechyd a llesiant yn dilyn y pandemig.



Astudiaeth achos: Gweithio mewn partneriaeth i gyflwyno profion COVID-19

Yn ystod camau cynnar y Pandemig roedd angen creu ffordd newydd o weithio er mwyn cynnig profion PCR COVID-19 i boblogaeth Cymru. Roedd byrddau iechyd yn adeiladu unedau profi cymunedol ar gyfer eu staff. Fodd bynnag, roedd angen profi staff gwasanaethau hanfodol fel yr heddlu, athrawon a gweithwyr gofal cymdeithasol er mwyn iddyn nhw allu dychwelyd i'r gwaith yn ddiogel.

Daeth staff o bob rhan o Lywodraeth Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru Cydwasanaethau GIG Cymru, byrddau iechyd, yr Adran Iechyd a'u sefydliadau cymorth, awdurdodau lleol, aelodau o Grwpiau Cydgysylltu Strategol, Fforymau Lleol Cymru Gydnerth ac ati at ei gilydd mewn gwahanol ffyrdd i sefydlu nifer o safleoedd profi torfol. Fe wnaethom:

- Gomisiynu safle profi torfol yn Stadiwm Dinas Caerdydd, a'i agor o fewn chwe diwrnod.
- Datblygu model gweithredu a gweithdrefnau diogelwch o'r cychwyn cyntaf.
- Cymryd samplau ar y safle saith diwrnod yr wythnos. Fe wnaeth Clwb Pêl-droed Dinas Caerdydd ofalu am bawb, gan agor y safle'n gynnar a'i gau yn hwyr y nos, gan ddarparu

stiwardiaid, lluniaeth, a rhywle i storio deunyddiau.

- Datblygu system archebu i gleifion ar gyfer y safleoedd profi torfol, a gafodd eu teilwra ar gyfer pob partner Fforwm Lleol Cymru Gydnerth a Grŵp Cydlynw Strategol. Roedd ei wasanaeth cludydd ei hun ar gyfer pob safle er mwyn anfon samplau i'n labordai.
- Cael gafael ar becynnau samplu, eu pacio a'u dosbarthu.
- Sefydlu system electronig i wneud cais am bawf lle y byddai prawf y claf yn cael ei gofnodi fel rhan o Borth Clinigol Cymru. Ar yr un pryd, fe wnaethom greu gwasanaeth darparu canlyniadau awtomatig drwy neges destun.
- Datblygu system adrodd a fyddai'n dangos amseroedd prosesu labordai a'r canlyniadau a monitro cyfanswm yr achosion o COVID-19

Fe wnaethom weithio gyda chydweithwyr yn y byrddau iechyd i gomisiynu safleoedd profi ychwanegol a rhannu'r hyn a ddysgwyd. Roedd angen adolygu a monitro'r broses brofi yn rheolaidd i sicrhau ein bod yn cadw at yr holl ofynion rheoli heintiau priodol.

CASGLIAD AC EDRYCH I'R DYFODOL

Rydym wedi amlinellu cynlluniau uchelgeisiol i wneud gwaith iechyd cyhoeddus allweddol dros y 12 mis nesaf. Mae'r rhain i'w gweld yn ein Cynllun Gweithredol ar gyfer 2021-2022, a gafodd ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru ddiwedd mis Mawrth 2021.



Mae ein cynllun nid yn unig yn canolbwyntio ar yr hyn sydd angen ei wneud ar unwaith i barhau i ymateb yn effeithiol i bandemig y coronafeirws, ond mae hefyd yn ystyried effeithiau ehangach COVID-19, ailgychwyn ein gwasanaethau a sut y bydd ein sefydliad yn adfer ar ôl y pandemig.



Serch hynny, rydym yn cydnabod wrth ddatblygu'r cynllun hwn y byddwn yn gweithio mewn amgylchedd heriol ac anrhagweladwy. O'r herwydd, bydd angen i ni adolygu'n barhaus pa mor ymarferol yw ein cynllun, yn dibynnu ar sut y bydd y pandemig yn dal i ddatblygu, ein gallu i recriwtio staff ychwanegol, a sut rydym yn ailgychwyn ein prif swyddogaethau iechyd cyhoeddus.



Byddwn hefyd yn asesu effeithiau COVID-19 ar ein strategaeth a'n blaenoriaethau tymor hir drwy adolygiad ffurfiol o'r strategaeth, a bydd hyn yn ystyried cyfleoedd a heriau yn y dyfodol. Byddwn yn parhau i symud ein staff yn ôl i'w rolau arferol ac yn ailgychwyn ein gwasanaethau, yn dibynnu ar ddatblygiad y pandemig.



Dros y 12 mis nesaf, byddwn yn canolbwyntio ar faterion sy'n deillio o ymroddiad, proffesiynoldeb ac ymdrechion diflino parhaus ein holl staff sydd wedi gweithio i ddelio â'r heriau iechyd cyhoeddus digynsail a welwyd ledled Cymru. Bydd eu hymdrechion yn ein galluogi i barhau i ymateb i'r heriau hyn yn hyderus.